



---

# **TAG ADRODDIADAU ARHOLWYR**

---

**TAG (NEWYDD)  
CYMRAEG IAITH GYNTAF  
UG/UWCH**

**HAF 2019**

Mae gwybodaeth am ffiniau graddau'r pwnc hwn ar gael ar wefan gyhoeddus CBAC fel a ganlyn: <https://www.wjecservices.co.uk/MarkToUMS/default.aspx?l=en>

### **Dadansoddiad o'r Canlyniadau Ar-lein**

Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar wefan ddiogel CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff mewn canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i'r staff yn y ganolfan gyrchu'r wefan hon.

### **Adroddiad Ystadegol Blynyddol**

Mae'r Adroddiad Ystadegol blynyddol (a gyhoeddir yn ystod ail hanner Tymor yr Hydref) yn rhoi canlyniadau cyffredinol pob arholiad y mae CBAC yn ei weinyddu.

<b>Uned</b>	<b>Tudalen</b>
CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 1	1
CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 2	6
<b>CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 3</b>	11
CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 4	16
CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 5	23
CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 6	29

# CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 1

## Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

### Uwch Gyfrannol/Uwch

#### Sylwadau cyffredinol

##### **Cyffredinol:**

Cafodd yr arholwyr fwynhad mawr o wrando ar bobl ifanc o bob rhan o Gymru yn trafod llenyddiaeth Gymraeg gyda brwdfrydedd, gan arddangos gwybodaeth a diddordeb. Cafwyd croeso cynnes iawn ymhob canolfan a diolch am y croeso hwnnw. Sicrhodd mwyafrif y canolfannau ystafelloedd pwrpasol a thawel i arholi ynddynt. Mae hyn mor bwysig i'r dysgwyr ac yn gymaint o gymorth iddynt wrth ganolbwyntio a chynnal trafodaeth o dan amodau arholiad.

Derbyniwyd y taflenni gweinyddol i gyd yn drefnus wedi eu nodi yn nhrefn teilyngdod.

Yn flynyddol ceisir rhoi arweiniad yn yr adroddiad hwn drwy nodi cryfderau trafodaethau ynghyd â meysydd i wella fel bod canolfannau yn gallu canolbwyntio ar rai agweddau posibl wrth addysgu. Dyna'r bwriad eleni eto gan fawr obeithio y gall hyn fod yn arweiniad pellach.

Fel y blynyddoedd blaenorol mae ansawdd y trafodaethau yn gyffredinol dda, ac er yn amrywiol, yn dangos ôl paratoi gofalus o ran yr addysgu. Roedd yr ymgeiswyr oll yn ymwybodol o'r gofynion. Gwyddai'r mwyafrif sut i barchu eraill yn y grŵp, sut i wrando'n dawel ar gyfraniadau eraill, a chyfrannu eu hunain pan ddeuai'r cyfle. Rhaid canmol gallu nifer o ymgeiswyr i ddewis a dethol gwybodaeth o'r testunau cyfan, ymresymu a dadansoddi'n ddeallus a dyfynnu'n berthnasol. Cafwyd rhai ymgeiswyr er hynny yn ailadroddiwynt rhywun arall drwy ei aralleirio.

Roedd clywed iaith raenus, naturiol ar draws yr ystod gallu yn galonogol iawn a dangoswyd meistrolaeth ar dermau llenyddol yn gyffredinol. Roedd mynegiant ymgeiswyr oedd ar y brig yn eu galluogi i gyfleu eu syniadau'n glir a chroyw, gan drafod cysyniadau cymhleth.

Roedd yn amlwg bod nifer dda o ganolfannau wedi annog yr ymgeiswyr i ymchwilio i farn eraill (ysgolheigion, cyfarwyddwr ac actorion, llenorion) ac wedi hwyluso hyn drwy drefnu ymweliadau penodol. Roedd hyn yn amlwg wedi cyfoethogi profiadau'r ymgeiswyr ac wedi esgor ar gnoi cil pellach a dyfnach ar y testunau.

#### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

##### **Siwan**

##### **Cryfderau**

- dealltwriaeth o gymeriadau Gwilym Brewys a Llywelyn yn cael eu hamlygu a digon o dystiolaeth i gefnogi sylwadau
- gwybodaeth dda a dyfynnu perthnasol wrth drafod y cyfnod, y themâu serch a chariad, diffyg cyfathrebu a chaethiwed

- treiddgarwch a manylder gan y goreuon wrth drafod ‘*naid i’r gwyll*’, perthynas Gwilym a Siwan (Act 1), y dyfyniad ‘*awr anterth.. syrffed*’, delweddau araith Llywelyn, cymharu araith Llywelyn ag araith Gwilym, ieithwedd Alis
- dyfynnu pwrpasol yn cyfoethogi ansawdd y trafodaethau
- mwyafrif yn cael hwyl ar ddewis dyfyniad sy’n crynhoi hanfod y ddrama a braf oedd cael ymatebion amrywiol, yn hytrach na chytuno â sylwadau rhywun arall
- ymatebion da i agweddau megis rhagfynegi, eironi

### Angen sylw ar y canlynol:

- Darlun o’r **diwylliant Ffrengig** a dylanwad Ffrengig Siwan ar y llys - y dawnsfeydd (y Galliard/Dawnsio Aquitaine), dylanwad Siwan ar y drefn o rannu’r etifeddiaeth, geiriau Ffrengig Alis, canu barddoniaeth Marie de France am Trystan ac Esyllt, marchogion Ffrainc yn synnu gweld dawnsio Ffrengig yn y llys, Ffrancwyr yn credu i Siwan fowldio Llywelyn yn un o’r Normaniaid
- **dulliau Gwilym o hudo Siwan** – llawer yn colli cyfle i gyfeirio at yr arddull e.e. gweniaith a dychan, ymffrostio Gwilym yn ei gampau ei hun, yr ymgolli mewn atgofion, gormodiaith a gorliwio ynghyd â chyfeiriadau at lenyddiaeth glasurol e.e. Helen o Droea. Câi nifer anhawster i fanylu a dyfynnu gan fethu â dadansoddi pam y daliai Siwan yn ôl rhag rhuthro i freichiau Gwilym
- **golygfa’r crogi** yn Act 2 - angen mwy o fanylder yma wrth drafod y crogi e.e. y gwrthdaro rhwng y Cymry a’r Ffrancwyr, ymateb y dorf a’r geiriau a genid gan y côr yn ogystal ag ymddygiad Gwilym. Mae’n bwysig i’r ymgeiswyr gofio hefyd am brofiad Alis o weld crogi. Collir cyfle i enghreifftio iaith ddisgrifiadol Alis wrth drafod y crogi.
- **dealltwriaeth o gymeriadau** – angen i’r ymgeiswyr ddeall mai trwy roi cyfrifoldebau gwleidyddol a thynnu Siwan i mewn i waith y deyrnas y dangosodd Llywelyn ei gariad ati; i Gwilym nid oedd dim byd yn bod ag anffyddlondeb mewn priodas e.e. sonia am y cyfan fel ‘*twmamaint*’; coegni Siwan yn Act III
- **penderfyniad Llywelyn i grogi Gwilym Brewys** - nifer yn parhau i fethu dirnad hyn. I gyrraedd yr haen uchaf mae angen mwy na chenfigen a siom. Rhaid deall ymateb Siwan iddo a’i dadlau gwleidyddol. Mae angen i ymgeiswyr ddeall y gwahaniaeth rhwng y penderfyniad i’w ‘ddienyddio’ a’r penderfyniad mai fel ‘lleidr pen ffordd’ y byddai’n cael ei grogi.
- **iaith ac arddull** - y ddrama yn gyforiog o nodweddion arddull cyfoethog (*eironi drammatig, gwirebau, coegni, delweddau, symbolau, odlau mewnlol, ailadrodd, adleisio brawddegau ei gilydd, cyferbyniadau*) a dylai ymgeiswyr ar y bandiau uchaf sylwi arnynt. Mae angen tystiolaeth ac enghreifftio. Caiff ymgeiswyr drafferth i esbonio rhai o ddelweddau areithiau Gwilym a Llywelyn e.e. y greal sanctaidd, y fedwen, rhosynnau. Yn yr un modd mae cyfle i gyfeirio at rai o’r **cyfeiriadau clasurol** pan fo hynny’n briodol e.e. *Trystan ac Esyllt, Helen o Droea, Casandra, Iwl Cesar, Ffransis y Brawd Llwyd*
- **ieithwedd cymeriadau** e.e. Alis, roedd nifer eleni yn cael eu tynnu i drafod cymeriad ar draul ieithwedd. Wrth drafod ieithwedd Alis mae angen enghreifftio iaith ddisgrifiadol Act 2, angen mynd ar ôl ei llinellau diarhebol, iaith y cynghorwr a’r aeddfedrwydd yn Act 3, yr elfen bryfoclyd a’r sylwadau ar y noson yn Act 1. Rhaid dadansoddi yn hytrach na gwneud sylwadau cyffredinol.
- **Darlun o’r traddodiad Cymreig**: mae angen i ymgeiswyr yn y band uchaf fanylu ar yr agwedd hon gan enghreifftio tystiolaeth i ddarlunio’r diwylliant e.e. barddoniaeth Prydydd y Moch
- **Symbolau** - cyfle i ddatblygu yma a chyfle i gyfeirio at symbolau ar wahân i’r gwely a’r goron

## Y Tŵr

### Cryfderau

- trafod y cymeriadau, y berthynas rhyngddynt, y themâu yn llwyddiannus fel arfer
- gallu rhesymu gan gyfeirio'n benodol wrth drafod pa un yw'r mwyaf ansicr yn Act 1 ac wrth ystyried a ydynt yn caru ei gilydd
- cynnig enghreifftiau o'r **gwrthdaro** yn Act 2 a byd cystadleuol y dosbarth canol rhagrithiol
- **tymhorau**: cynigwyd sylwadau perthnasol ar y defnydd o'r tymhorau
- trafod rhai agweddau ar iaith
- **pwrpas y tŵr**: y goreuon yn gallu cynnig eu syniadau, cyfeirio ac ymateb i ddyfyniad Goronwy Owen
- trafod **golygfeydd** lle mae'r elfen o ofn yn cael ei amlygu orau yn ogystal â golygfeydd sy'n cyfleu hapusrwydd
- **arwyddocâd delweddau** megis y grisiau a'r trêrn yn ddeallus
- trafodaethau ar 'Y Tŵr' yn esgor ar fwy o amrywiaeth o ran dehongliadau o fewn grwpiau deallus
- ymwybyddiaeth o elfennau Theatr yr Absŵrd yn amlwg yn y canolfannau a astudiaid 'Y Tŵr'.

### Angen sylw ar y canlynol:

- lle i fanylu ar **berthynas y tad a'i fab** – er nad yw'r mab yn bresennol yn y ddrama dysgwn lawer am y berthynas hon e.e. diddordeb y tad yn ei waith tra prydera'r fam am yr eira a diffyg hoffter gwraig Gwyn ohoni, yr hen ŵr yn ffwendro ac yn camdehongli digwyddiadau'r gorffennol gyda'i fab...
- mwy o sylw i dechnegau **deialog** y dramodydd e.e. *iaith dafodieithol, defnydd o elipsis yn y ddeialog, brawddegau fel ergyd bwled, sgysiaid digyswllt, monologau, cyfleu pellter perthynas, defnydd o seibiau, adegau o gyfleu agosatrydd*. Mae cyfle i gael llawer mwy o enghreifftiau wrth drafod ieithwedd cymeriad gan ddadansoddi natur y ddeialog a'r defnydd o eiriau yn fanwl
- dylanwad y **mamau** ar y ddau gymeriad
- **dyfyniadau** yn cyfoethogi ansawdd trafodaethau'r ymgeiswyr
- cyfle i ganolbwyntio fwyfwy ar yr **elfennau clywedol** yn y ddrama
- angen mwy o fanylder wrth drafod **golygfeydd penodol**

## Hedd Wyn

### Cryfderau

- **Williams Morris** - dealltwriaeth dda o'r cymeriad a'i ran allweddol yn y ffilm gan gyfeirio at olygfeydd yn briodol ac ystyried ei anabled
- **effaith y rhyfel ar Drawsffynnydd** - llwyddwyd i drafod chwalfa o fewn teulu a chymuned gan enghreifftio'n briodol
- **golygfeydd y cae gwair** - cyfeiriwyd at y goleuo, cerddoriaeth ac onglau camera
- cafwyd dadansoddiad da o glo'r ffilm a'r gadair fel arch yn dychwelyd adref – a hynny'n cysylltu gyda'r delweddau o'r gadair ar gychwyn y ffilm
- trafodaethau da ar y **cyfnod/effaith y rhyfel** ar Drawsffynnydd; rhai'n ddadansoddi iawn ac yn gallu cyfeirio'n benodol at lawer o olygfeydd
- **gwrthdaro rhwng dau ddiwylliant** - llawer yn gallu darlunio'r gwrthdaro Cymry a Saeson gan ddyfynnu; rhai'n ystyried ai gwrthdaro Cymry a Saeson ydoedd ynteu agwedd drahaus y Saeson at y Cymry; rhai'n gallu trafod y gwrthdaro ehangach rhwng dwy ochr yn y rhyfel

- **pwysigrwydd Arianrhod** – soniai'r mwyafrif am yr awen, y merched, y ferch berffaith, yr ysbrydoliaeth – roedd y gallu i gyfeirio at yr awdl ac arwyddocâd Merch y Drycinoedd yn cyfrannu'n effeithiol iawn i ansawdd atebion y goreuon
- trafodaethau da gan nifer ar **symboliaeth** y cloc/amser a'r trê
- arfer dda nifer o ymgeiswyr oedd gwau eu sylwadau am **dechnegau** i'r drafodaeth yn gyffredinol
- y goreuon yn dangos gwybodaeth fanwl a threiddgarwch arbennig wrth ddadansoddi golygfeydd penodol

#### Angen sylw ar y canlynol:

- **Cerddoriaeth** e.e. cyfle i drafod amrywiaeth o gerddoriaeth, y tempo, yr awyrgylch a greir, ynghyd â geiriau caneuon mewn golygfeydd penodol a'r cyswllt rhyngddynt e.e. *'He was despised...'*
- **Ellis y bardd** - disgwylir i'r goreuon allu olrhain y datblygiad a welir ym marddoniaeth Ellis drwy'r ffilm, o'r canu rhamantaidd i 'Rhyfel' ac i'r Awdl gan ddyfynnu o'r darnau a glywir yn y ffilm.
- **Golygfeydd** – angen mwy o fanylder wrth drafod golygfeydd penodol o ran gwaith camera a sain, eu pwrpas a'u heffeithiolrwydd e.e.
  - yr olygfa recriwio - y pregethwr yn annog y bechgyn i enlistio yn enw Crist, canu *Marchog Iesu yn llwyddiannus*, baner Jac yr Undeb yn y cefndir yn symbol o'r rhyfel imperialaidd a phropaganda a jingoistiaeth y pregethwr, ymateb Wiliam Morus;

mwy o sylw i'r technegau ffilmio a ddefnyddir wrth ddarlunio'r golygfeydd erchyll o ryfel yn Rhan 3 e.e.

  - yr olygfa gyda Mr Curney, y fam ac Enid yn eithaf arwynebol ar y cyfan. Ychydig oedd yn dyfynnu ac yn cyfeirio at wrthgyferbyniadau, hunanbwysigrwydd Mr Curney. Mae cyfle i gael mwy am y gwrthdaro Saesneg/Cymraeg, Ellis yn dweud wrth Enid *'Watsha'r gyllell 'na'* – hithau'n ei fradychu wedyn wrth ildio i awdurdod; buddugoliaeth fyrhoedlog, wag i'r fam ond yn cynnig hiwmor, symboliaeth y gât
- Darlun o Hedd Wyn fel **rhamantydd** – collir cyfleoedd yma ac mae angen trafod mwy na dylanwad y merched a serch yn unig. Ychydig a welodd bod cysylltiad rhwng Arianrhod a natur e.e. yr adlewyrchiad yn ffenest y trê wrth iddo adael.
- Datblygiad **Ellis fel person** drwy'r ffilm – o'r merchetwr anaeddfed yn rhan 1, i'w aberth dros Bob ac yna ei ofal o'r bechgyn ifanc yn y ffosydd yn Ffrainc.
- **Sibrwd y farddoniaeth** - cyfle i enghreifftio'n benodol y golygfeydd perthnasol ac ystyried arwyddocâd y geiriau yn eu cyd-destun. Ceir ansicrwydd beth sydd yn cael ei sibrwd a chan bwy. Angen i ymgeiswyr wrando'n ofalus – pryd clywir llais HW a phryd y ceir llais Merch y Drycinoedd. Mae'r englyn olaf *'Cyn hir fe'n hunir ninnau..'* yn bwysig, yn arwyddocaol ac yn dod ar ôl y gusan.
- Mae angen i ymgeiswyr allu bod yn glir a threfnus wrth feddwl am **ddelweddau** e.e. gallu dwyn i gof yr holl elfennau sy'n ymwneud â chrefydd – e.e. ffenest y capel yn torri, coler gron gweinidogion, golygfeydd yn y capel (rôl gymdeithasol), croes doredig, y Beibl ar y galon, caneuon wrth orymdeithio, geiriau yn yr olygfa *'llond sach o gelwyddau'*, *'plant y diafol'* yn ôl y gweinidogion, blydi pregethws
- **Ôl-fflachiau** – mae angen mwy am eu rhan yn y **strwythur**; ambell ymgeisydd heb ddeall 'ôl-fflach' ac yn tybio mai'r golygfeydd o HW yn gorwedd ar faes y gad yw'r ôl-fflachiau. Nid yw nifer o ymgeiswyr yn gweld bod Ellis yn edrych yn ôl wrth iddo orwedd ar ei fywyd ar faes y gad.

Byddai atgyfnerthu geirfa megis: *delwedd, rhagrith, symbol, cyfosod golygfeydd, rhamantydd, strwythur, dirmygus, dadrithio, chwalfa, swyno, llys, ildio, gwrthdaro, gweniaith, dienyddio, gwerthoedd, gwewyr meddwl* yn cyfoethogi ansawdd trafodaethau'r ymgeiswyr.

Hoffwn ddiolch i'r arholwyr i gyd am eu gwaith ac i chwithau fel athrawon am baratoi'r ymgeiswyr gystal ar gyfer yr uned hon, uned sy'n profi'n hynod lwyddiannus.

## **Crynodeb o brif bwyntiau**

### **Sylwadau cyffredinol**

Dyma ychydig o argymhellion cyffredinol sut y gall canolfannau wella ar berfformiadau'r ymgeiswyr:

- Rhoi ffug arholiad - er bod amser yn faen tramgwydd yn sicr byddai ymgeiswyr yn elwa o ymarfer y grefft arholi fwyfwy. Cafwyd enghreifftiau o golli momentwm yn gynnwys iawn wrth gychwyn ateb.
- Dylid atgoffa'r ymgeiswyr i beidio â chrwydro a rhaeadru'r hyn a adolygwyd ond yn hytrach gwrandao ar union eiriad y cwestiwn. Mae'n allweddol bod yr ymgeiswyr yn ymarfer y grefft o berthnasu'r hyn a adolygwyd i ateb y cwestiwn. Eleni ailadroddwyd geiriad y cwestiwn ar sawl achlysur er mwy annog yr ymgeiswyr i ateb y cwestiwn.
- Mae angen sicrhau cysondeb yn ansawdd y trafodaethau rhwng y ffilm a'r ddrama. Nododd sawl arholwr eleni fod yna duedd i ansawdd un testun fod yn gryfach na'r llall. Mewn sefyllfa o'r fath gall hyn effeithio ar farc llafaredd AA1.
- Mae angen cofio mai agwedd yn unig ar y marc iaith yw'r rhuglder a chywirdeb, mae'r gweddill yn ymwneud ag ymestyn dadl, cyfleu syniadau a dadleuon yn glir, ymresymu, datblygu trafodaeth.
- Mae angen i'r ymgeiswyr wyllo HW drosodd a throsodd er mwyn bod yn sicr ynghylch enwau'r cymeriadau, trefn digwyddiadau a manylion golygfeydd. Mae'r ffilm yn cynnig mynediad i ymgeiswyr o bob safon i'r arholiad.
- Rhaid dyfynnu'n gywir ac i bwrpas. Mae cyfle i 'addysgu' rhai ymgeiswyr sut i ddefnyddio dyfyniadau'n naturiol. Serch hyn, mae angen gwyllo rhag boddi mewn dyfyniadau. Wrth orddyfynu a rhestru dyfyniadau collir hanfod y cwestiwn a chymhlethir yr ymateb.
- Eleni sylwyd bod angen arweiniad ar lawer iawn mwy o ymgeisywr i ateb cwestiynau - roeddent yn cyrraedd yno yn y pen draw ond gyda chryn dipyn o arweiniad.

## CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 2

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

#### Uwch Gyfrannol/Uwch

#### Sylwadau cyffredinol

##### Gweinyddol

Diolch eleni eto i'r canolfannau am sicrhau bod y ffolios yn ein cyrraedd yn brydlon a threfnus. Atgoffir canolfannau bod plygellau papur yn fwy hylaw i'w safoni a gofynnir iddynt osgoi rhai plastig ar bob cyfrif. Eleni eto rhaid atgoffa pawb bod angen enw a dyddiad ar bob tasg unigol a bod angen nodi'r ffurfiau'n glir ar y ffurflen Uned 2 sydd ymhob ffolio. Fel llynedd gwelwyd bod yr asesu wedi ei gwblhau'n ofalus a chafwyd sylwadau ystyrion a ymatebai'n effeithiol i'r gwaith gan y mwyafrif o athrawon. Gwelir bod y goreuon yn tynnu sylw at wendidau yn ogystal â rhinweddau'r tasgau. Fodd bynnag deil sawl canolfan i gyflwyno gwaith heb unrhyw anodi ar y tasgau gan ddibynnu ar sylwadau crynodol sy'n dyfynnu'r meini prawf yn unig. Defnyddia fwyaf y canolfannau 'b' (barn), 't' (tystiolaeth), 'cg' (croesgyfeirio) a 'g' (gwrthddadl) wrth farcio Tasc 2 ac mae hyn o gymorth wrth bennu marc ac wrth gymedroli'r marc a bennwyd.

Gwelwyd tystiolaeth o safoni mewnol gan y mwyafrif o ganolfannau. Anogir safonwyr mewnol i wneud sylwadau perthnasol sy'n cyfiawnhau pam eu bod yn cytuno â'r marc a bennwyd neu am ba reswm maen nhw'n eu newid. Prin yw gwerth nodi "Safonwyd" a llythrennau enw ail athro heb nodi unrhyw sylw pellach.

#### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

##### Tasg 1: Ysgrifennu darn estynedig rhwng 1,000 a 2,000 o eiriau ar un o'r ffurfiau

Heb amheuaeth ysgrifennu creadigol oedd fwyaf poblogaidd eleni eto, a braf oedd gweld canolfannau'n cyflwyno ffurfiau gwahanol, ffurfiau oedd yn gweddu i gryfderau'r ymgeiswyr yn hytrach na bod pawb yn cyflawni'r un math o ysgrifennu. Roedd tystiolaeth ar draws yr ystod gallu o saernïo bwriadus ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynnwys technegau arddull i greu disgrifiadau ac awyrgylch. Fel nodwyd gan un cymedrolwr "pleser oedd darllen gwaith ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu." Gwelwyd enghreifftiau prin o ymgeiswyr a ragorai wrth fynegi barn a thrafod testun o gymharu ag ysgrifennu'n greadigol gan gynnwys disgrifiadau ac ati. Heb amheuaeth teimlai'r cymedrolwyr byddai ffurf erthygl olygyddol neu flog wedi gweddu i'w dawn yn well a byddai'r gwaith wedi bod yn fwy llwyddiannus. Roedd gwaith y goreuon yn gynnil ac aeddfed ac roedd undod arbennig i'w darnau.

Yn gyffredinol roedd ansawdd yr iaith yn dda iawn ond fel sydd i'w ddisgwyl mae'n debyg, roedd gwallau iaith a diffyg paragraffu addas yn faen tramgwydd yn y bandiau marciau is. Dylid rhoi sylw pellach i ffurfiau berfau cryno trydydd person unigol presennol ac amherffaith a'r gwahaniaeth rhyngddynt yn ysgrifenedig, er eu bod yn hynod debyg i'r clyw (e.e. "*sibrydai Taid*" yn lle "*sibryda Taid*" a "*gallai*" yn lle "*galla i*"). Gwelwyd mwy o dystiolaeth bod y gwiriwr iaith Saesneg wedi ei ddiffodd eleni a llai o "death" a "I". Fodd bynnag mae dal lle i ymgeiswyr olygu eu gwaith yn fwy gofalus cyn ei gyflwyno i'w farcio er mwyn gwaredu gwallau teipio hollol ddiangen. Dylai canolfannau sicrhau sylw dyledus i iaith wrth bennu band marciau ar gyfer y dasg.



Atgoffir athrawon ac ymgeiswyr mai tasg 1000 - 2000 o eiriau yw hon. Anodd yw ateb gofynion y band marciau uchaf o ran treiddgarwch pan yw'r dasg yn hynod fyr.

**Stori fer:** Dyma'r dewis mwyaf poblogaidd eleni eto. Gwelwyd gwaith crefftus wedi eu saernïo'n dda yn y band marciau uchaf. Roedd cynildeb a dyfeisgarwch y goreuon yn drawiadol a'r ysgrifennu'n aeddfed afaelgar. Gwelwyd delweddau diddorol, fflachiadau o wreiddioldeb a llwyddai'r goreuon fod yn gynnil heb ddweud popeth a thafu'r cyfan atom. Amrywiwyd arddull a chystrawen gan arddangos cyfoeth iaith arbennig gan y goreuon. Roedd hi'n amlwg bod ymgeiswyr yn deall pwysigrwydd agoriad da ac undod o fewn y stori. Fodd bynnag mae'n bwysig i'r awduron ystyried a ydy pethau'n digwydd yn rhy sydyn yn y stori ac a ydy'r manylion yn cyd-fynd â chyd-destun y cyfnod gosodwyd y stori ynddi. Oedd cyfnod y stori'n rhy faith? Mewn gwirionedd dylid ystyried a yw stori'n fwy o bennod gyntaf nofel pan heuir nifer o linyddau storiol posibl ond yna rhuthrir y diwedd er mwyn gorffen y stori. Ar waelod yr ystod roedd yr ysgrifennu'n cynnwys elfennau anghyson yng ngwead y plot a phethau nas datblygwyd neu nad oeddent yn argyhoeddi'r darllenwr. Arweinai hyn at ysgrifennu naif. Roedd anhawster cynnal amser cywir y ferf yn nodweddu nifer o straeon ac yn sicr roedd angen mwy o gynildeb awgrymog ar ymgeiswyr yn is yn yr ystod marciau. Braf yw nodi bod llai o ysgrifennu blodeuog i'w weld eleni a llai o bentyrru ansoddeiriau a throsiadau. Nodwyd yr angen am deitl i stori fer gan sawl cymedrolwr - dydy "ysgrifennu creadigol" neu "stori fer" ddim yn deitl priodol gan mai disgrifiad o'r dasg ydyw nid rhan hanfodol o'r stori.

**Pennod gyntaf nofel:** Derbyniwyd sawl pennod gyntaf o nofel a phlannwyd awgrymiadau am linyddau storiol, crëwyd diddordeb a gwelwyd sawl diwedd glo a oedd yn awgrymu'r datblygiad a oedd i ddod gan y goreuon. Ar y llaw arall roedd hefyd enghreifftiau lle gwelwyd diffyg datblygiad, diffyg cynildeb a phrinder hau linyddau. Mewn gwirionedd, fel nodwyd llynedd, roedd ambell bennod gyntaf nofel yn fwy o stori fer ac felly dylid addasu'r ffurf yn ôl y canlyniad. Noda un safonwr mai "arfer dda yn y cyfnod paratoi fyddai trafod ymhle fyddai'r syniad yn gorwedd orau - ai mewn pennod o nofel neu oddi fewn i *genre* y stori fer."

**Dyddiadur:** Gwelwyd ymdrech i saernïo dyddiaduron yn grefftus gan y goreuon ac roedd y cynllunio'n ofalus. Tueddai'r dyddiaduron fod yn bytiog gan gwmpasu cyfnodau rhy faith. Rhaid gochel rhag cyflwyno ffeithiau personol a fyddai'n wybyddus i'r awdur mewn dyddiadur. Dylai'r manylion gael eu rhannu'n gynnil drwy lif y cofnod yn hytrach na chael eu cyflwyno ar ddechrau'r dyddiadur. Ceir ymdrech deg i gyflwyno teimladau ond yn gyffredinol gwelwyd angen i gymeriadau ymateb yn fwy i'r digwyddiadau. Er mwyn cyrraedd y brig mae angen mwy o ddyfnder syniadol yn gyffredinol ar y dyddiaduron.

**Ymson:** Gwelir y goreuon yn cynllunio'n ofalus a derbyniwyd rhai ymsonau ardderchog eleni eto. Mae modd arbrofi gyda'r ffurf hwn ac mae'r goreuon yn gwneud hynny gan gynnwys deialog a bwrw golwg yn ôl at ddigwyddiadau'r gorffennol heb gadw'n gaeth i'r amser presennol. Byddai mwy o saernïo'n cryfhau sawl ymson gan sicrhau ryw ddatblygiad o ran cyflwr meddyliol neu o ran sefyllfa. Rhaid atgoffa ymgeiswyr bod angen cynnal llif yr ymennydd drwy'r ymson. Roedd tuedd i fod yn storiol yn hytrach nag yn ymsonol gan rai a chofnodent ddigwyddiadau yn hytrach nag ymateb iddynt. Stori yn y person cyntaf yn hytrach nag ymson oedd ambell ddarn a gyflwynwyd. Byddai cyflwyno ymson mwy nag un cymeriad yn ymateb i'r un sefyllfa efallai yn fodd o gyfoethogi'r gwaith. Pan anghytunwyd â'r marciau y duedd oedd bod yr ymsonwr wedi colli'r ffurf.

**Cyfes o flogiau:** Nifer fechan o flogiau a gyflwynwyd eleni. Yn y band marciau uchaf roedd y blogwyr yn defnyddio coegni a hiwmor. Roeddent yn bryfoclyd ac yn chwarae ar eiriau gan ddewis cywair iaith addas ac aeddfed. Roedd bys y goreuon ar y pŷls a gwelwyd ôl ymchwil ar y dweud. Roedd ganddynt ymwybyddiaeth gref o bwysigrwydd perthnasu â'r gynulleidfa.

Er mwyn cyrraedd y band uchaf rhaid sicrhau treiddgarwch ac er mor ddifyr yw mynd ar 'rant' nid yw o reidrwydd yn dreiddgar. Yn yr enghreifftiau is ar yr ystod marciau cafwyd tuedd i gyflwyno barn yn hytrach na blogio ond teimlai safonwyr y byddai ambell awdur a ysgrifennodd yn greadigol wedi elwa o gyflawni tasg o'r natur hon.

**Portread:** Derbyniwyd portreadau clodwiw gan gynnwys rhai yn y band marciau uchaf. Nodweddwyd y goreuon gan ddiffuantrwydd a'r ddawn i ddethol hanesion a manylion bach oedd yn dod â'r cymeriadau'n fyw. Roedd y portreadau mwyaf llwyddiannus yn datgelu rhywbeth am yr awdur yn ogystal â thestun y portread. Cyfeiriai'r mwyafrif yn sensitif at wendidau'r cymeriad dan sylw yn ogystal â'i gryfderau. Collwyd cyfle gan sawl awdur wrth iddynt gyfeirio at rywbeth difyr a pheidio'i ddatblygu. Rhaid i'r awduron gofio bod saerneo gofalus yn hanfodol wrth lunio portread llwyddiannus. Ar adegau roedd mynegiant gwan a thrwsogl yn medru effeithio ar y dweud.

**Sgript yn seiliedig ar stori fer ar gyfer llwyfan neu deledu neu radio:** Roedd y sgriptiau a dderbyniwyd yn gymysg eu hansawdd ond dewiswyd straeon addas i'w sgriptio yn ddieithriad. Crëwyd golygfeydd newydd gan y cryfaf a chyflwynwyd deialog wreiddiol a chyfarwyddiadau manwl. Siom oedd gweld rhai'n cadw at y stori wreiddiol yn gaeth gan beidio â'i datblygu o gwbl. Gyda rhai sgriptiau, prin iawn oedd y cyfarwyddiadau technegol sy'n greiddiol i dasg o'r fath ac sy'n gyfle i arddangos creadigrwydd o natur weledol a chlywedol er mwyn cyfleu emosiwn ac awyrgylch y stori.

**Erthygl olygyddol neu ysgrif i bapur newydd neu gylchgrawn:** Prin oedd yr enghreifftiau a dderbyniwyd eleni a noda rhai safonwyr y byddai ambell ymgeisydd a ysgrifennodd yn greadigol wedi elwa o gyflawni tasg o'r natur hon. Gan mai erthygl olygyddol yw'r darn dan sylw mae cyfleu safbwynt neu ymateb yn bersonol yn hollbwysig. Gwnaeth y goreuon hyn gan ddewis pynciau cyfredol addas ac ymdrin â nhw'n aeddfed ac yn wybodus. Cafwyd tuedd gan eraill i fod yn bytiog ar adegau ac ni chafwyd ymwybyddiaeth ddigonol o'r gynulleidfa. Byddai cynnwys sylwadau pryfoclyd, dychanol a chrafog yn fodd o ymgysylltu â'r gynulleidfa.

**Darn o hunangofiant ac Adroddiad Newyddiadurool:** Ni welwyd enghreifftiau o'r ffurfiau hyn yn y ffolderi a gymedrolwyd eleni.

## **Tasg 2: Ymchwilio a Mynegi barn ar Bwnc Llosg**

Braf oedd gweld fod canolfannau'n ddieithriad yn rhoi rhyddid i ymgeiswyr ddewis eu testunau eu hunain. Canmolir llawer o ganolfannau am eu hanodi deallus ar waith yr ymgeiswyr - mae'n gymorth mawr iawn wrth ddeall y marc a roddwyd. Mae'r anodi gorau'n nodi cryfderau penodol y dasg a thynnu sylw at wendidau nid dyfynnu llinellau o'r meini prawf yn unig heb eu cysylltu â'r tasgau dan sylw.

Heb amheuaeth mae'r dewis testun yn hanfodol i'r dasg hon ac mae'n hollbwysig sicrhau bod gwrthddadleuon yn bosibl. Mae'r safonwyr yn unfrydol eu barn bod testunau eang eu cwrmpawd yn arwain at drafodaethau sy'n colli golwg ar y testun yn aml iawn. Dylid sicrhau bod gwrthddadleuon yn bosibl, a bod ymgeiswyr yn deall pwysigrwydd y gwaith ymchwil. Ceir tuedd i ddyfynnu'r gwaith ymchwil a chytuno neu anghytuno gydag e yn hytrach na mynegi barn a defnyddio'r gwaith ymchwil i gefnogi'r farn honno. Wrth ymdrin â gwrthddadleuon nid yw nodi barn wahanol yn ddigon, mae angen ymateb iddi, ei thrafod a'i mesur a'i phwyso cyn y medrir gwobrwyo'r ymgeisydd amdani. Yn yr un modd nid yw ymateb i ystadegau drwy ddweud "mae hyn yn warthus" yn fynegi barn heb fod trafodaeth bellach ar yr ystadegau hynny.

Gwelwyd yn y gweithiau mwyaf llwyddiannus bod gan yr ymgeiswyr wybodaeth a dealltwriaeth ddefn o'r testun dan sylw a chefnogwyd y wybodaeth honno gan waith ymchwil manwl. Cafwyd trafodaethau ar bynciau cyfoes a thestunau a oedd at ddant yr awduron. Darllenwyd gweithiau yn ymdrin â Brexit, annibyniaeth i Gymru, pwysau ar y GIG, a mewnfudwyr yn ogystal â'r hen ffefrynnau: ewthanasia, erthylu, arbrofi ar anifeiliaid a'r gosb eithaf. Rhaid gochel rhag caniatáu i ymgeiswyr drafod testun lle na allai unrhyw un ddadlau'r wrthddadl. Dylid cynghori ymgeiswyr i addasu teitl cyffredinol megis "Effaith Brexit ar Brydain" i rywbeth fel "Andwyol yw effaith Brexit ar Brydain": addasiad bach fedrai wneud gwahaniaeth mawr i'r awdur gan arwain at ddadleuon o blaid natur andwyol Brexit ac yn ei erbyn drwy drafod budd Brexit i Brydain.

Yn gyffredinol roedd tystiolaeth gadarn o waith ymchwil da ond fel nodwyd uchod mae'n hanfodol ei ddefnyddio'n effeithiol i gefnogi barn rhag iddi fynd yn dasg gyflwyno gwybodaeth. Mae angen ceisio sicrhau ymchwil gyfoes yn hytrach na thystiolaeth sydd wedi dyddio a braf yw gweld rhai ymgeiswyr yn canfod tystiolaeth o Gymru a Phrydain i gefnogi eu dadleuon. Er mwyn cyrraedd y band uchaf rhaid croesgyfeirio a sicrhau treiddgarwch a chymhlethdod y syniad a'r ddadl. Arfer dda yw rhestru'r ffynonellau a chyfeirio at y ffynhonnell wrth ei defnyddio er mwyn rhoi hygrededd i'r wybodaeth. Wrth gynllunio ar gyfer y dasg hon arfer dda i athrawon fyddai gwirio cynllun pob ymgeisydd gan sicrhau bod dadleuon gwahanol ar gael a thrafodaeth berthnasol o wrthddadleuon. Dylid sicrhau bod pob ymgeisydd yn nodi pa ffurf mae'n ei defnyddio ar y dasg.

Cafwyd ymwybyddiaeth dda iawn o rethreg yn yr areithiau. Defnyddiai'r goreuon hi'n gynnil heb fod yn oramlwg ac ymwithiol. Tueddai'r sawl oedd yn nes at waelod yr ystod marciau gynnwys cwestiynau rhethregol cyffredinol nad oeddent yn ychwanegu at y drafodaeth mewn gwirionedd ("Beth ydych chi'n ei feddwl? Ydych chi'n cytuno?"). Gwelwyd angerdd ac argyhoeddiad yn yr areithiau gorau a chafwyd ymwybyddiaeth gyson o gynulleidfa. Roedd gafael gadarn iawn ar ramadeg a chystrawen gan y goreuon a chanmolir hwy'n uchel. Ar ganol yr ystod gallu roedd ffurf yr araith yn gymorth i ymgeiswyr ond rhaid gochel rhag mynd ar goll yn y rethreg.

Cafwyd traethodau aeddfed a chadarn. Roedd gan yr ymgeiswyr gorau ymwybyddiaeth dda iawn o hanfodion ysgrifennu traethawd ac fe strwythurwyd y gweithiau'n ofalus gan adeiladu dadl yn aeddfed o baragraff i baragraff. Cafwyd perswâd a phwyso a mesur effeithiol gan resymu'n ddeallus cyn dod i gasgliad ac roedd hyn i'w ganmol yn fawr. Gwnaed defnydd effeithiol o waith ymchwil er mwyn cefnogi barn. Wrth ymateb i farn eraill a thrafod y farn honno ymestynnwyd y drafodaeth gan gynnig lefel uchel o dreiddgarwch.

Hyderaf y bydd pob canolfan yn darllen a rhoi sylw manwl i'w hadroddiad unigol. Sylwadau cyffredinol yw'r rhain ond cynigia'r adroddiadau unigol sylwadau penodol perthnasol i'r ganolfan honno. Diolch am yr holl waith caled wrth baratoi'r ymgeiswyr mor drylwyr at yr uned hon.

### **Crynodeb o brif bwyntiau**

- Atgoffir canolfannau am bwysigrwydd anodi pwrpasol wrth farcio'r tasgau a chyflwyno sylwadau pwrpasol ac ystyrion am y gwaith.
- Dylid rhoi sylw pellach i wallau iaith a pharagraffu ac atgoffa ymgeiswyr i dreulio amser yn golygu eu gwaith yn arbennig gwallau teipio diangen.
- Dylai canolfannau annog ymgeiswyr i ddewis ffurf i dasg 1 sy'n apelio atyn nhw – yn achos rhai ymgeiswyr mae'n bosib y byddai ysgrifennu cyfres o flogiau, erthygl

olygyddol neu adroddiad newyddiadurol yn apelio mwy atynt ac yn arwain at waith mwy llwyddiannus na ffurfiau megis stori fer neu ddyddiadur ayyb.

- Yn y dasg Ymchwilio a Mynegi Barn ar Bwnc Llosg mae'n bwysig dewis testun lle mae gwrthddadlau yn bosibl. Dylid hefyd sicrhau bod yr ymgeiswyr yn defnyddio tystiolaeth yn effeithiol i gefnogi dadleuon.
- Anogir athrawon i wirio taflen gynllunio ymgeiswyr cyn iddynt ddechrau ar y dasg dan amodau arbennig i sicrhau eu bod yn dilyn y cyfarwyddyd sydd yn y fanyleb (tudalen 16) a'u bod yn cwrdd â gofynion y dasg trwy gael dadleuon a gwrthddadleuon.

**CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 3**  
**Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)**

**Haf 2019**

**Uwch Gyfrannol/Uwch**

**Sylwadau cyffredinol**

**ADRAN A**

- Yr argraff gyffredinol a gafwyd oedd bod yr atebion yn well eleni.
- Roedd rhai ymgeiswyr wedi ateb Adran A ar ôl cwblhau'r traethawd ac mae'n bosibl nad oeddent wedi llwyddo i gwblhau'r adran oherwydd nad oeddent wedi gadael digon o amser. Roedd hynny'n dangos diffyg cynllunio'u hamser.
- Costiodd diofalwch lawer o farciau i ymgeiswyr – nid yn unig drwy wallau gramadegol a sillafu ond drwy hepgor acen grom, defnydd anghyson o'r atalnod a doedd llawer iawn ddim yn cynnwys atalnod llawn.

**ADRAN B: BARDDONIAETH**

- Unwaith eto eleni cafwyd traethodau hir a drwyddi draw teimlir bod gan yr ymgeiswyr ddealltwriaeth dda o'r cerddi a chysyniadau'r beirdd.
- Roedd traethawd 2a yn llawer mwy poblogaidd.

**Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol**

**Adran A**

**1 (a)**

**Caiff**

- Amrywiol oedd yr atebion yma, nifer dda o ymgeiswyr yn anghofio dangos person a nifer o rai eraill nad oeddent yn dangos yr amser presennol/dyfodol. Pe byddent wedi ceisio ei newid am ffurf arall ar y ferf byddent wedi gweld bod hynny'n bosibl, ac felly nad oedd eu brawddeg yn dangos ystyr a defnydd.

**Pan**

- Roedd mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu defnyddio hwn yn gywir.
- Gwelwyd nifer fechan yn ei gamgymryd am 'pam'.
- Gan fod gofyn am frawddeg gymhleth yma roedd defnyddio atalnod yn anghyson ac yn tueddu i ymddangos mewn llyfdd rhyfedd o fewn y frawddeg.

**Nad yw**

- Roedd nifer wedi baglu gyda hwn ac wedi ei ddefnyddio yng nghyd-destun 'nid yw'

**1 (b)**

- (i) Roedd effeithiolrwydd yr esboniad yma yn dibynnu ar y ganolfan. Gallai mwyafrif yr ymgeiswyr esbonio i ryw raddau ac roedd hi'n amlwg bod ganddynt ryw gof o'r rheol. Roedd nifer o ganolfannau yn amlwg wedi gwneud yn siŵr bod eu holl ymgeiswyr wedi dysgu'r eglurhad cyfan – *enw, benywaidd, unigol, meddal, y fannod*.

- (ii) Roedd nifer dda wedi cael hwn yn gywir. Cafwyd rhai oedd yn amlwg yn anghyfarwydd ag ystyr y termau a rhai'n cynnwys yr ateb cywir ond heb nodi'n union pa elfen yr oedden nhw'n cyfeirio ati wrth nodi e.e. 'ein bod' am y rhagenw dibynnol blaen, 'cyflwyno'r' am y fannod.
- (iii) Cafwyd sawl ateb da yn cadw at gyd-destun y darn ond roedd yn amlwg hefyd nad oedd nifer yn deall beth oedd ystyr 'ffyddiog'. Methodd rhai â chysylltu'r cymal â'r gyfrol yr oedd cyfeiriad ati yn y frawddeg flaenorol. Yma gwelwyd mân wallau yn costio'n ddrud i'r ymgeiswyr.
- (iv) Achosodd y cwestiwn negyddu drafferthion dybryd a phrin oedd yr atebion cywir i'r ddau gwestiwn.
- ein bod wedi ennill y gêm – Ceisiodd llawer newid y cymal yn llwyr – 'ein bod wedi colli'r gêm'. Roedd 'ein bod heb' hefyd yn boblogaidd. Gwelwyd newid yr amser a'r person – 'nad oeddwn wedi ennill y gêm'.
  - sydd wedi cael cyfweliad – Eto yma ceisiwyd newid y cymal – 'sydd wedi methu cael cyfweliad'. Roedd 'sydd ddim wedi' a 'sydd heb' yn gyffredin iawn.
- (v) Llwyddodd nifer dda i adnabod 'ac agos' gan ei adnabod fel cysylltair. Fel arfer adnabyddent y gwall – 'a berfformid' – ond cywirai mwyafrif yr ymgeiswyr ef fel 'berfformwyd' gan hepgor 'i'. Gallent weld bod angen amser gorffennol fel arfer.
- (vi) Yn annisgwyl, llwyddodd y cwestiwn hwn i beri trafferthion hefyd. Llwyddodd y mwyafrif i nodi 'darllenaf' fel ffurf bresennol y ferf 'darllen' ond ychydig iawn oedd yn gallu newid 'euthum' i 'af'. Gwelwyd sawl ffurf – 'awn', 'aethom', 'es', a sawl ymgais mwy creadigol – 'Darllenaf dair erthygl cyn mynd ymlaen i'r llyfrgell' nad oedd modd ei wobrwyo.
- (vii) Llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i lunio rhyw lun o baragraff amrywiol frawddegau. Roedd hi'n syndod faint o ymgeiswyr aeth ati i ailddisgrifio'r gwanwyn er ei fod yn nodi'n eglur yn y cwestiwn bod angen 'cyfleu argraffiadau personol o'r hydref'.

Hyd yn oed mewn disgrifiadau o'r hydref roedd camargraffiadau dybryd am y nodweddion a ddisgwyliid mewn byd natur yr adeg honno o'r flwyddyn. Roedd nifer fechan wedi ailgopïo'r darn a gyflwynwyd ar y papur arholiad gan newid lle y torrai'r brawddegau neu gyda pheth ymhelaethu. Eto gwelwyd amrywiaeth o wallau yn cynnwys sillafu, treigladau a cham atalnodi.

Dyma enghraifft dda yn adleisio'r gwreiddiol ond yn ateb y gofynion:

*'Lliwiau'r dail sy'n fflamau o fy mlaen, a chlywaf fy nhraed yn sibrwd rhyngddynt. Ar ben y bryncyn pori mae'r gwartheg yn hamddenol. Cana'r adar, a hedfanodd uwch fy mhen eiliadau ynghynt, ar eu taith i'r gwledydd cynhesach. Mae'r hydref wedi dod.'*

## ADRAN B Barddoniaeth

### Cryfderau

- Roedd gwybodaeth o'r tair cerdd yn **ddigon cyfartal** ar y cyfan.
- Rhyfeddir ar allu'r goreuon i **grynhoi ffeithiau perthnasol** gan arddangos, nid yn unig wybodaeth drylwyr am y cerddi, ond y gallu i ddehongli'n ddeallus a threiddgar. Mae aeddfedrwydd a threiddgarwch ambell un o'r goreuon yn anhygoel.

- Rhaid canmol y gallu i dynnu cysylltiadau rhwng y cerddi – cafwyd gwreiddioldeb yn hyn o beth.
- Roedd ymgeiswyr ar draws yr ystod yn **dyfynnu'n** llwyddiannus. Amrywai cywirdeb a pherthnasedd y dyfyniadau, ond ar y cyfan gwelwyd defnydd effeithiol o'r cerddi gosod.
- **Amrywiol oedd llwyddiant y cymharu.** Llwyddai'r goreuon i gymharu'n gyson, gan wneud sylwadau treiddgar. Roedd llawer o'r traethodau gorau'n darllen yn rhwydd gan ddefnyddio geirfa eang a chyfoethog a syniadau hynod o wreiddiol. Roedd yn bleser eu darllen. Roedd eraill yn ei gyfyngu i rai brawddegau rhwng ymdrin â'r tair cerdd ar wahân, neu i adran ar y diwedd. Eto gwelwyd ôl hyfforddi ar sut i gymharu cerddi drwy'r defnydd o gymalau/patrymau cymharu.
- **Cynllun digon llwyddiannus** a welwyd fwyfwy eleni oedd ymdrin â cherdd 1 i ddechrau, yna cerdd 2 ond gan gymharu â cherdd 1, a gorffen gyda cherdd 3 gan gymharu â'r ddwy gerdd arall. Roeddent fel arfer yn crynhoi i gloi'r traethawd.

**iaith a mynegiant:** roedd iaith a mynegiant mwyafrif helaeth o'r ymgeiswyr yn eithaf cywir neu well ac yn hollol ddealladwy. Ar y brig caed iaith raenus, gyfoethog a chywair cwbl addas i'r dasg.

### Ambell sylw am y cerddi unigol:

#### Y Gŵr sydd ar y Gorwel

- Er bod rhai sylwadau treiddgar, deallus, roedd rhai pethau syml, naif hefyd yn ymddangos, fel y sylw am Saunders Lewis:  
*'Gan nad oedd yn ddyn tal iawn, doedd pobl ddim yn ei gymryd o ddifrif.'*  
ac  
*'Yn anffodus, roedd ei ffydd yn ei yrru i wneud pethau gwirion fel bomio'r ysgol fomio ac yna colli ei swydd.'*
- Anghofiodd nifer o'r ymgeiswyr sôn am y cwpled pwysig tua diwedd y gerdd wrth drafod 'Y Gŵr Sydd ar y Gorwel' –  
*'Ni all sŵn ennill senedd,  
Ni ddaw fyth heb newydd fedd.'*  
gan gollu agwedd arwyddocaol i Gerallt Lloyd Owen amser cyfansoddi'r gerdd.

#### Preseli

- Y maen tramgwydd pennaf oedd perthnasu'r gerdd i ateb y cwestiwn gan gymhwyso'r grefydd a daliadau gwleidyddol y bardd wrth drafod llinellau penodol.
- Collwyd cyfleoedd i drafod neges ehangach Waldo o'r Preseli yn ficrocosm o Gymru a'r byd ac yn batrwm i'w dilyn. Ni chyfeiriwyd ato yn edrych allan ar y byd drwy ffenestr ei iaith a'i ddiwylliant.
- Gwelwyd peth camagraff wrth ymdrin â Preseli, fel y syniad bod Waldo Williams yn sôn am gôr cymysg wrth gyfeirio at *'un llef, pedwar llais'*, sylw a wnaed gan yr holl ymgeiswyr mewn rhai canolfannau.

#### Gwenllian

- Eironig oedd y sylw i Gwenllian gael ei halltud i Sandringham.
- Ni lwyddodd rhai ymgeiswyr i gyfeirio bod Gwenllian yn ddelwedd i gyflwr yr iaith Gymraeg.
- Wrth beidio â thrafod y clo collir gweledigaeth y bardd sef yr awgrym bod y llanw'n troi a'r gobaith nid yn unig y bydd pobl yn cofio am Gwenllian ond y bydd yr iaith yn adennill ei thiriogaeth ac yn hawlio ei lle.

## Y Genhedlaeth Goll

- Roedd ambell ymgeisydd yn trafod y cysyniadau ond heb wir esbonio'r milwyr a'r rhyfel, yr ymchwilio a'r cymharu.
- Yn aml ni chyfeirwyd at y colofnau papur newydd a'r modd y gwasgwyd newyddion am y colledion i ganol hysbysebion ysgafn. Yn yr un modd ni chyfeiriwyd at y clo a 'troednodyn oer' yr ymchwilydd modern. Gwnaed sylw gan rai fod y 'troednodyn oer' ar waelod tudalen o'r papur newydd yn hytrach nag yng ngwaith yr ymchwilydd.
- Ni lwyddodd nifer i argyhoeddi wrth drafod y 'Ni' a'r 'Nhw', cafwyd peth dryswch.

## Moelni

- Roedd perthnasu'r gerdd hon i ateb y cwestiwn yn dipyn o her i rai ymgeiswyr a thueddwyd trafod y gerdd yn nghyd-destun bro. Cafwyd llawer o sôn am farwolaeth natur, marwolaeth bro, marwolaeth plentyndod.
- Wrth gyfeirio a thrafod yr wythawd ni lwyddai nifer i ddeall fod yr argraff ddofn a wnaeth ei gynefin mynyddig arno yn ei fachgendod yn allweddol i ddeall myfyrdod y bardd ar farwolaeth yn ail hanner y soned.
- O'r rhai a oedd wedi mentro cyfeirio at fyfyrdod THPW yn y chwechawd, roedd yr ymdriniaeth o gwestiwn mawr tragwyddoldeb yn arwynebol ar y cyfan. Ni lwyddwyd i drafod syniadaeth T.H.Parry-Williams am fywyd wedi marwolaeth a chollwyd cyfleoedd i gyfleu deuoliaeth y bardd.
- Cafwyd dealltwriaeth lawn gan ambell ganolfan o'r elfen wyddonol ac agnostig ond roedd hwn ar goll gan nifer fawr o ganolfannau eleni.

## Y Meirwon

- Llwyddwyd i gyfleu dealltwriaeth dda o'r gerdd ond efallai nad oedd rhai yn gallu ei pherthnasau i'r cwestiwn yn ddigonol gan egluro bod marwolaeth, yr oedd y bardd mor ymwybodol ohono yn ifanc, wedi gadael craith ar ei gof.
- Prin oedd y rhai a allai drafod cyfalafiaeth a sosialaeth sydd mor allweddol i ddeall ergyd Gwenallt wrth bwysleisio'r pigo cydwybod.

**Mesurau:** roedd tipyn o gamargraff wrth drafod mesurau – heb adnabod 'Gwenllian' fel cywydd yn eithaf cyffredin. Nodwyd 'Preseli' hefyd fel penrhydd.

Rhaid canmol ymdrech mwyafrif yr ymgeiswyr a diolch i chwithau fel athrawon am ysbrydoli'r ymgeiswyr a'u paratoi gystal ar gyfer yr arholiad.

## Crynodeb o brif bwyntiau

### Agweddau i'w hystyried ymhellach

#### Adran A

- Parhau i ymarfer amrywiaeth o ymarferion posibl sy'n seiliedig ar ofynion manyleb 1b.
- Atgyfnerthu gwybodaeth yr ymgeiswyr am gymalau fel eu bod yn gallu strwythuro eu brawddegau yn well.
- Atgoffa'r ymgeiswyr i wirio eu brawddegau yn 1a er mwyn osgoi gwallau diofal.



## Adran B

- Gwelwyd nifer o ymgeiswyr eleni yn defnyddio cynllun a oedd yn ymgais i gynnwys cymharu cyson, ond a oedd, mewn gwirionedd, yn arwain at symudiad digon herciog a digyswllt. Gwnaent hyn drwy ymdrin â chychwyn y tair cerdd, un ar ôl y llall, yna symud at ganol y tair cerdd, un ar ôl y llall a gorffen drwy drafod diwedd y cerddi, un ar ôl y llall. Yr hyn a wnaent oedd ceisio cymharu adran o'r cerddi hyd yn oed os nad oedd unrhyw beth yno oedd yn haeddu sylw. **Doedd y cynllun hwn ddim o angenrheidrwydd yn arwain at gysylltu pwyntiau perthnasol, gan na fyddent yn yr un rhan o'r gerdd. Felly, anodd oedd gwneud cymariaethau dilys, treiddgar.** Yn aml hefyd roedd y cynllun hwn yn arwain rhai ymgeiswyr i **orgymhlethu'r drafodaeth** a cholli darnau pwysig o gerddi a oedd mewn gwirionedd yn cyfleu eu hanfod.
- Gresyn oedd darllen nifer o draethodau lle gwelwyd dealltwriaeth sicr o gysyniadau ond **diffyg manylder** wrth gyfeirio at rannau penodol o'r cerddi yn faen tramgwydd. Dylid cadw mewn cof mai gwybodaeth fanwl ac uniongyrchol o'r cerddi sy'n dod â'r marciau i ymgeiswyr yn hytrach na gwybodaeth gefndirol.
- Cafwyd prinder ymdriniaeth o **nodweddion arddull** mewn rhai canolfannau a oedd eto yn effeithio ar ansawdd y traethodau.
- Roedd llawer o **gefndir diangen** yn cael ei gyflwyno yn arbennig yn 2a a hynny ar draul adnabod elfennau tebyg a gwrthgyferbyniol yn agweddau'r beirdd.
- Yn 2b cafwyd tuedd i gynnig mwy o **sylwebaeth gyffredinol** ar y cerddi yn hytrach na mynd i'r afael â'r rhannau allweddol lle mae'r beirdd yn trafod marwolaeth.

## CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 4

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

#### Uwch Gyfrannol/Uwch

#### Sylwadau cyffredinol

Gwerthfawrogi'r croeso a gafwyd i'r arholwyr ym mhob canolfan a'r ffaith bod ystafelloedd tawel wedi eu neilltuo gyda chadeiriau a byrddau addas. Sicrhawyd ffurflenni marcio yn nhrefn teilyngod (nid yn nhrefn y wyddor neu wedi eu grwpio ymlaen llaw) ym mhob canolfan bron.

Roedd marciau'r ymgeiswyr a nodwyd ar y ffurflenni gan y canolfannau, at ei gilydd, yn deg ond mewn rhai achosion roedd y marciau allan ohoni'n arwyddocaol. Atgoffir canolfannau bod y marciau hyn yn ganllaw i'r arholwr benderfynu ar lefel her y cwestiynau ac os bydd marciau'n afresymol o uchel i'r ymgeiswyr, gallai'r cwestiynau cyntaf eu llorio. Atgoffir canolfannau hefyd fod y disgrifiadau AA1 ar bob band yn cyfeirio at ansawdd yr ymatebion, yr ymresymu a'r dadleuon yn ogystal ag ansawdd yr iaith. Mewn rhai achosion, roedd y marc a nodwyd gan y ganolfan ar gyfer AA1 yn sylweddol uwch na'r marc AA2. Dylid osgoi hyn gan gadw pob disgrifiad AA1 yn y cynllun asesu mewn cof.

Mae'r arholwyr i gyd yn cyfeirio at y pleser a gawson nhw wrth arholi eleni eto. Gwyddai mwyafrif yr ymgeiswyr sut i barchu eraill yn y grŵp, sut i wrando'n dawel ar gyfraniadau eraill. Roedd y mwyafrif llethol o ymgeiswyr wedi cael eu hyfforddi'n drylwyr ac roeddent yn ymwybodol o'r gofynion. Fodd bynnag, nododd rhai arholwyr nad oedd digon o ôl 'ymarfer' o dan amodau arholiad wedi bod mewn rhai canolfannau. Hefyd, cofier bod ffug arholiadau'n allweddol.

Nid yw'r elfen synoptaidd yn foddhaol ym mhob canolfan - gweler crynodeb o brif bwyntiau.

#### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

##### Blasu

- Nododd un arholwr fod 'y nofel yn amlwg wedi gafeael, a'r grwpiau'n arddangos gwybodaeth fanwl, yn gwneud sylwadau treiddgar ac yn amlwg wedi cael boddhad mawr o astudio'r nofel'.
- Trafodwyd y cymeriadau, yn arbennig Pegi a Jennie yn dda. Dangoswyd dealltwriaeth dda o'r gwahaniaethau rhyngddynt a gwerthfawrogyd sut y mae strwythur a chynllun y nofel yn amlgu gwahanol agweddau o'u cymeriadau gan mai o safbwynt gwahanol gymeriadau y'u darlunnir. Roedd rôl Jonathan wedi'i ateb yn dda, ynghyd â'r gwahaniaethau rhyngddo ef a Huw.
- Cafwyd hwyl ar drafod rhai themâu e.e. etifeddiaeth.

- Wrth ystyried ai menywod cryf a welir yn y nofel, cafwyd enghreifftiau o gyfeirio at nofelau eraill yn wybodus a pherthnasol e.e. cymharu â nofelau eraill Manon Steffan Ros.
- Trafodwyd ‘bwyd’ yn llwyddiannus. Llwyddwyd i fanylu ar arwyddocâd rhai o’r rysetiau a gweld sut roedd rhai bwydydd yn cynnig cysur ond hefyd rhai yn cael eu defnyddio i ddangos casineb. Roedd y grwpiau gorau’n gallu trafod symboliaeth y bwydydd yn fanwl ac yn dreiddgar.
- Mae angen mwy o sylw ar rai o’r isgymeriadau, ac yn arbennig berthynas Annie a Jac.
- Dylai’r ymgeiswyr allu manylu ar olygfeydd penodol e.e. mae angen rhoi gwell sylw i olygfeydd y caffii yn Nhywyn o ran arwyddocâd, crefft a symboliaeth.
- Trafod thema obsesiwn – mae angen ystyried ystod eang o gymeriadau’r nofel.
- Trafodwyd cymeriadau da a drwg ond beth am y rhai yn y canol?
- Amrywiol oedd yr atebion ar gymdeithas – tuedd i fod yn rhy gyffredinol a bras. Roedd yr atebion ar gymdeithas Llanegryn yn well na’r atebion ar gymdeithas Tywyn, ond yn gyffredinol, roedd manylion ac enghreifftiau’n brin. Mae angen sylw ar y gwahaniaeth rhwng Tywyn a Llanegryn, newidiadau yn y gymdeithas a golygfa Pwllheli.
- Crefft ac arddull oedd yr elfen wannaf yn gyffredinol. Dyma fater sy’n codi’n flynyddol ar draws y testunau gosod. Er i ambell grŵp da wneud cyfiawnder â’r elfen hon, gan ddyfynnu ac enghreifftio’n helaeth, yn gyffredinol, trafodaeth digon arwynebol oedd hi. Mae’r adnodd ar y nofel ar Hwb yn pwysleisio ac yn enghreifftio nodweddion fel cyffelybiaethau, trosiadau, gwrthgyferbyniadau a delweddau ynglŷn â natur. Gallai ymgeiswyr elwa ar fanylu ar yr elfen hon, ynghyd â chasglu eu henghreifftiau eu hunain, ac oedi gydag ambell ddisgrifiad penodol a’i ddadansoddi.
- Roedd tuedd i’r deunydd synoptig ganolbwyntio’n bennaf ar nofelau eraill Manon Steffan Ros – *Fel Aderyn*, *Llanw*, *Llyfr Glas Nebo*, *Prism*. Roedd rhain yn amlwg yn addas, a llawer o’r un elfennau’n amlwg ynddynt, ond roedd llai o amrywiaeth o ran awduron wrth drafod ‘Blasu’ na’r nofelau eraill.

### Dan Gadarn Goncrit

- Llwyddwyd i ymgodymu’n dda â chwestiynau am gymeriadau, themâu a strwythur y nofel yn gyffredinol.
- Roedd ymwybyddiaeth o elfennau ôl-foderniaeth ar draws yr ystod, gyda’r goreuon yn gallu ei berthnasu i’r nofel osod ac i gyfrolau eraill.
- Roedd pawb yn barod gyda’u hatebion am y teitl ac yn amlwg wedi darllen y gerdd ‘Cymru 1936’ gan ddyfynnu ohoni.
- Cafwyd trafodaethau da yn gyffredinol eleni ar y darlun dychanol o’r brifysgol, perthynas y darlithwyr â’i gilydd, y darlithwyr unigol, agweddau at fyfyrwyr, agwedd myfyrwyr at waith, a’r Adran Geltaidd. Roedd y goreuon yn dyfynnu ac yn gallu manylu ar ddarlithoedd Maldwyn.

- Amlygwyd dealltwriaeth dda o'r prif gymeriadau, yn enwedig Maldwyn, e.e. trafod ei gydwybod, hunanoldeb, Maldwyn y Cymro. Gallu mynd ar ôl CWSG, Lois, perthynas â Toni, Maldwyn y tad, y darlithydd. Dealltwriaeth foddhaol o briodas Mal a Toni - y diffyg cyfathrebu a'r diffyg cariad. Ond, fel gydag agweddau eraill ar y nofel, mae angen mwy o gyfeiriadau penodol at y testun a dyfyniadau.
- Mae angen i'r ymgeiswyr allu manylu ar olygfeydd penodol e.e. yr olygfa yn Caffi Jones lle mae'r cymeriadau yn dod at ei gilydd tua'r diwedd. Yma, roedd y goreuon yn gallu trafod ei harwyddocâd a'i strwythur, gallu gwneud sylwadau ar y cymeriadau, gallu dadansoddi. Mae cyfle yma iddyn nhw ddangos dealltwriaeth ddofn o linynnau storiol y nofel. Roedd rhai ymgeiswyr yn gorfod cyffredinoli am nad oedd ganddynt wywbodaeth fanwl am y digwyddiadau, y cymeriadau a'r lleoliadau.
- Cafwyd ymateb da i gwestiwn yn gofyn ai nofel feministaidd yw hi, gan roi cyfle i ymgeiswyr godi i dir uwch. Roedd trafod natur cymeriadau benywaidd wedi rhoi cyfle da hefyd i ymgeiswyr gyfeirio at weithiau llenyddol eraill.
- Anghyson oedd safon y drafodaeth ar y gymdeithas – y goreuon yn ddisglair ond rhai ymgeiswyr nad oeddent yn hollol sicr lle oedd Llanhowys, Aberdyddgu a Chaerefydd hyd yn oed.
- 'Cymdeithas lygredig?' Cafwyd enghraifft o ymgeiswyr yn gallu pwyso a mesur 'llygredig' a thrafod nodweddion y gymdeithas. Mae gafael ar eirfa gyfoethog a themau yn codi perfformiad i dir uwch.
- Trafod crefft ac arddull oedd yr elfen wannaf. Dyma fater sy'n codi'n flynyddol ar draws y testunau gosod er bod sawl arholwyr yn nodi bod gwelliant wedi bod eleni. Roedd y goreuon yn trafod ieithwedd a'r arddulliau gwahanol yn ddeheuig gan nodi lluo o enghreifftiau a'u dadansoddi'n graff. Byddai casglu enghreifftiau o'r amrywiaeth o nodweddion perthnasol e.e. cyffelybiaethau a throsiadau amrywiol, a'u trafod yn y dosbarth yn sicr o fudd i'r ymgeiswyr. Roedd rhai'n drysu symbol a delwedd. Mae angen mwy o sylw ar ieithwedd cymeriadau unigol a'r modd y mae'r iaith yn amlygu'r gwahaniaethau rhyngddynt.
- Mae angen i nifer o ymgeiswyr fanylu mwy eto ar arwyddocâd y tair rhan, gan roi mwy o sylw i'r teitlau.
- Diffyg cyfathrebu – Maldwyn/Toni, Mared, Maldwyn/Tanwen, Camel/Tanwen yn cael sylw. Mae lle i drafod y cyfathrebu rhwng Mama Losin a Pwdin Mawr yn ddyfnach. Y thema 'diffyg cyfathrebu' wedi esgor ar gyfeiriadau synoptaidd da.
- Roedd dealltwriaeth dda o ddirywiad y Gymraeg yn y gymdeithas a chyfeiriadau synoptig at nofelau tebyg e.e. *Ffydd Gobaith Cariad*, Llwyd Owen. Roedd yr ymgeiswyr yn trafod diffyg Cymreictod y cymeriadau a'r gymdeithas yn ddeallus.

## Martha Jac a Sianco

- Roedd yr ymgeiswyr wedi eu paratoi'n dda a thrylwyr ar draws y canolfannau. Nododd un arholwr bod 'gallu dysgwyr yn dod i'r amlwg yn eu hymateb yn enwedig wrth ddadansoddi a dehongli ac ymateb i ambell gwestiwn annisgwyl a heriol'.

- Hiwmor: sefyllfaoedd a dywediadau yn cael eu trafod yn dda. Byddai gallu dangos eu bod yn ystyried gwahanol fathau o hiwmor yn codi'r safon ymhellach e.e. dywediadau ac idiomau ffraeth, disgrifiadau o gymeriadau yn y naratif, digwyddiadau a sefyllfaoedd doniol, coegni, chwarae ar eiriau, dychan.
- Roedd y cymeriadau wedi eu trafod yn llwyddiannus e.e. wrth drafod a oedd fflachiadau o aeddfedrwydd gan Sianco ar adegau - llyfrau'r banc, lladd y fuwch o berspectif Sianco, ymateb i Judy o berspectif Sianco.
- Dylanwad a holl bresenoldeb Mami: gwelwyd dealltwriaeth gadarn gyda'r ymgeiswyr yn ystyried agweddau Martha a Jac tuag ati, dyfynnu, ystyried ar bwy oedd dylanwad mwyaf Mami, ceisio rhesymu bwriad Mami. Doedd yr ymgeiswyr ddim mor hyderus yn trafod perthynas y tri gyda'u tad.
- Mae angen ystyried rôl yr isgymeriadau yn y nofel yn fwy gofalus. Ychydig iawn o bobl sy'n dod i'r fferm e.e. John Penbanc, Wil, Emyr Siop, pobl yn y caffi. Mae Sam Fish er enghraifft yn rhoi cyfle i Caryl Lewis gyflwyno'r môr i'r nofel. Gyda Sam Fish cawn newid yn yr arddull wrth iddi gefnu am ychydig ar ddelweddau cefngwlad a chanolbwyntio ar y gwylanod, arogl yr heli, y pysgod, y saith saig a delweddau morwrol eraill.
- Y goreuon yn unig oedd yn gallu manylu'n ddigonol ar olygfeydd penodol e.e. y golygfeydd niferus a leolir yng Nghae Marged, a'r golygfeydd yng Nghaffi Eurwen.
- Roedd cyfodol golygfeydd yn amlwg wedi cael sylw gan y canolfannau wrth baratoi eleni. Mae angen ystyried golygfeydd a sefyllfaoedd cyferbyniol o fewn penodau yn ogystal â phenodau gwahanol yn dilyn ei gilydd. Doedd rhai ymgeiswyr dal ddim yn siŵr beth a olygir wrth 'gyfodol' golygfeydd.
- Crefft ac arddull oedd yr elfen wannaf yn gyffredinol. Dyma fater sy'n codi'n flynyddol ar draws y testunau gosod. Byddai rhoi sylw penodol i hyn a chasglu ystod eang o enghreifftiau effeithiol o wahanol nodweddion i'w defnyddio yn fuddiol.
- Mae angen mwy o sylw ar ieithwedd y cymeriadau – sut mae'r ieithwedd yn wahanol a sut mae'n adlewyrchu dimensiynau gwahanol eu cymeriadau. Yn ogystal â thrafod iaith Martha, Jac, Sianco a Judy, mae modd trafod iaith isgymeriadau e.e. mae John Penbanc yn saethu ambell fwled geiriol cyn eistedd nôl ac ailadrodd pethau fel 'ie, ie' ac 'odi, odi'
- Roedd rhai themâu wedi eu trafod yn ddeallus dros ben e.e. dewis, ffiniau, caethiwed, absenoldeb crefydd. Roedd y goreuon yn gallu meddwl yn annibynnol a thynnu ar ystod eang o enghreifftiau o'r nofel, yn ogystal â gwneud sylwadau gan gyfeirio ar ddarllen estynedig (synoptig). Roedd rhai canolfannau wedi elwa o'r ffaith iddynt ddarllen llawer o weithiau gan Caryl Lewis, yn enwedig *Plu*, *Y Bwthyn* a *Y Gwreiddyn* ond roedden nhw wedi darllen gweithiau gan awduron eraill hefyd.
- Ofergoelion, traddodiadau a defodau. Mae angen gwell sylw i ofergoelion yn y nofel. Mae rhain yn symbolaidd ac/neu eironig – blodau ar y ddraenen wen, crop o gnau, y coed celyn, y fuwch yn sugno ei theth ei hun, clywed y gwcw, aderyn corff, toili a'r ladi wen, brân yn cnocio yn erbyn y ffenest. Hefyd, mae angen gallu enghreifftio a thrafod rhai o'r defodau ac arferion

teuluol ar fferm Graig-ddu, nifer ohonynt yn gysylltiedig gyda Mami e.e. blodau ar feddau, picnic y mecryll, dathlu pen-blwydd Mami, plufio.

- Strwythur y nofel: mae'r nofel wedi ei seilio'n bennaf ar arferion calendr y ffermwr dros gyfnod o flwyddyn, y plufio, wyna, belo, cneifio, aredig a hau y barlys, cynhaeaf gwair. Mae angen mwy o enghreifftio a thrafod arwyddocâd y gwahanol gyfnodau hyn. Hefyd, mae angen i'r goreuon ystyried a oes mwy na gwaith y fferm yn cyfrannu at gynllun y nofel.
- Sut mae olion yr hen ffordd wledig o fyw yn ymddangos yn y nofel? Ai dim ond yn yr atgofion y gwelir hynny?
- Symbolau: dyfnder yr ymdriniaeth yn amrywio. Cafwyd crafter arbennig gan y goreuon. Byddai'n fuddiol i'r ymgeiswyr fynd ati i baratoi rhestr sylweddol o symbolau a thrafod eu harwyddocâd yn estynedig yn y dosbarth wrth baratoi.
- Manteisiwyd yn dda ar weithiau eraill Caryl Lewis – ei straeon byrion yn *Plu* ac *Y Gwreiddyn* a'r nofel *Y Bwthyn* yn arbennig. Ond cyfeiriwyd at amrywiaeth eang o weithiau eraill hefyd, yn nofelau, straeon a cherddi.

## Un Nos Ola Leuad

- Nododd un arholwr, 'Mae'r goreuon yn parhau i fy rhyfeddu i - maent yn gallu ymateb i'r cwestiynau heriol yn ddeallus ac aeddfed a braint yn wir oedd gwrando ar rai unigolion.'
- Defnyddiwyd barn beirniaid llenyddol megis Menna Baines a Mihangel Morgan yn dda gan rai ymgeiswyr a oedd wedi cael eu hyfforddi i feddwl drostyn nhw'u hunain am y nofel yn gyntaf cyn darllen yn ehangach amdani. Ond gwylir nad yw rhai ymgeiswyr yn cyfeirio'n ormodol at farn ysgolheigion ar draul ymateb personol, annibynnol. Mae ambell i ddisgybl yn gorddadansoddi damcaniaethau Oedipus ac ati ac o ganlyniad yn boddi.
- Trafodwyd yn ddigon deallus nifer o'r ffactorau a arweiniodd at gyflwr meddwl y fam. Rhoddwyd tystiolaeth ond roedd lle i fanylu mwy eto yn achos y mwyafrif. Doedd pawb ddim yn llwyddo i drafod hyn yn drefnus. Roedd tuedd gan rai neidio'n anniben o un peth i'r llall yn hytrach nag oedi a manylu fel grŵp ar un ffactor ar y tro. Byddai'n fuddiol ymarfer y sgil hon yn gyffredinol. Roedd ymgeiswyr mewn un canolfan wedi canolbwyntio'n llwyr ar y Canon heb ystyried ffactorau pwysicach nes iddyn nhw gael eu holi am fwy. Mae angen mwy o dystiolaeth o ddirywiad y fam - trafod yr arwyddion, y golygfeydd perthnasol, yr ymateb a'r agweddau at iechyd meddwl.
- Mae angen i'r ymgeiswyr allu manylu ar benodau neu olygfeydd penodol e.e. y gêm bêl-droed, y bennod gyntaf yn ei chyfanrwydd, hel llus, y daith i'r seilam, yn y seilam, lladd Jini Bach Pen Cae. Er bod rhai'n sicr eu gwybodaeth ac yn esbonio'r themâu ac arwyddocâd pethau gan gyfeirio'n benodol a dyfynnu, roedd rhai ymgeiswyr yn gorgyffredinoli. Doedd ganddyn nhw ddim llawer o wybodaeth benodol am yr olygfa/bennod ac roedden nhw'n brin eu dadansoddiad.
- Yn gyffredinol, mae lle i wella ar sut y mae arddull y nofel yn cael ei drafod gan fwyafrif yr ymgeiswyr. Tueddai pob ymgeisydd o ambell ganolfan ddefnyddio'r un enghreifftiau heb allu dadansoddi'r arddull yn iawn. Byddai'n fuddiol i'r ymgeiswyr gasglu eu rhestrau eu hunain yn enghreifftio nodweddion gwahanol a'u trafod wrth

ymarfer yn y dosbarth. Mae angen gallu esbonio a dadansoddi beth yn union yw nodweddion tafodiaith Bethesda a beth yw nodweddion iaith 'plentyn', gan gynnig nifer dda o enghreifftiau.

- Roedd ymdriniaeth yr ymgeiswyr o arddull 'feiblaidd' Pennod 8 a diwedd Pennod 15 yn amrywio'n fawr o ganolfan i ganolfan gyda'r arholwyr naill ai'n canmol y dyfnder, y deallusrwydd a'r manylder, neu (yn amlach) yn nodi bod hyn wedi peri trafferthion i'r ymgeiswyr o bob ystod gallu. Roedd tuedd i grwydro at ystyr/cynnwys yn hytrach nag aros gyda'r arddull a'r ieithwedd, er i gwestiwn ofyn yn benodol am arddull. Mae angen mynd ar ôl delweddau/cystrawen/geirfa/berfau a beth yw 'iaith Feiblaidd'. Yn aml, anwybyddwyd Pennod 15.
- Wrth drafod symbolau roedd tuedd i'r ymgeiswyr gyflwyno rhestr o'r symbolau'n hytrach na chanolbwyntio ar y ffordd y gwnaeth Caradog Prichard eu defnyddio. Roedd y goreuon yn gallu cyfeirio at ddefnydd o symbol penodol mewn gwahanol rannau yn y nofel e.e. dŵr, lleuad, y lliw glas
- Cymharu iaith y Salmau â'r gweddill: gallu trafod ac enghreifftio iaith 'gweddill y nofel' yn ddigon llwyddiannus ac yn mynd ar ôl amrywiaeth o nodweddion arddull. Ond, mae angen mwy o sylw i'r llif meddyliol.
- Cafwyd dyfynnu perthnasol a thrafodaethau hyderus ar arwyddocâd yr emynau a'r modd y maent yn rhagfynegi digwyddiadau yn y nofel. Nid oedd hyn yn gryfder ym mhob canolfan. Hefyd, mae rhai'n dal i ddweud bod 'Yr eneth gadd ei gwrthod' yn emyn.
- O ran dylanwad y Rhyfel ar y cymeriadau/gymdeithas, trafodwyd y colledion, beio'r Eglwys, ymateb Preis Sgŵl, Guto, Elwyn Pen rhes a'r DCM, y gofgolofn, y cyfeiriadau at y Jyrmans. Roedd y manylder yn amrywio o ymgeisydd i ymgeisydd. Y goreuon yn pwysleisio mai drwy lygaid plentyn y ceir y darlun.
- Mae angen ystyried arwyddocâd y Breuddwydion yn fwy gofalus a manwl, a mynd ar ôl y breuddwydio yn ôl a'r breuddwydio ymlaen.
- Trefn/strwythur – nodwyd gan y goreuon bod y nofel yn olrhain taith yr oedolyn ar hyd y Lôn Bost o du allan i dŷ mam Huw at Ben Llyn Du, a hynny ar un nos ola leuad. Trafodwyd ganddynt sut roedd y gweladwy ar y daith yn sbarduno atgofion – llif meddwl. Ychydig a lwyddodd i drafod sut mae Caradog Prichard yn *manteisio* ar y neidio amseryddol a sut mae'n ychwanegu at y nofel? Ai nofel annhrefnus yw hi mewn gwirionedd? Angen mwy o enghreifftio'r diffyg trefn, y cyfosod golygfeydd, y presennol/gorffennol, yr atgof o fewn atgof, ymddangosiad y lleuad.
- Roedd crefydd a rhagrith crefydd wedi'i feistrolï gan nifer fawr o ymgeiswyr ond roedd ambell un yn yn ansicr ynglŷn â phryd roedd y Diwygiad a beth oedd ei effaith. Prin oedd y rhai a drafododd Wil Colar Startsh yn clywed y llais.
- Dywedodd rhai ymgeiswyr yn yr arholiad eu bod wedi darllen *Afal drwg Adda*. Ond roedd hi'n amlwg nad oedd y mwyafrif llethol wedi darllen yr hunangofiant.

## Synoptig

Mae rhestrau o weithiau llenyddol y cyfeiriwyd atynt gan ymgeiswyr mewn arholiadau llafar yn y gorffennol i'w canfod yn adroddiadau blaenorol yr Uwch Arholwr.

Roedd y mwyafrif o'r ymgeiswyr eleni wedi darllen *Llyfr Glas Nebo* ac wedi defnyddio'r gyfrol i wneud cysylltiadau perthnasol, diddorol gyda'r nofel roedden nhw'n ei hastudio. Rhai o'r cyfrolau 'newydd' eraill a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus eleni oedd *Rhyddhau'r cranc* (Malan Wilkinson); *Esgyrn* (Heiddwen Tomos) a *Rhannu Ymbarél* (Sonia Edwards). Cafwyd cyfeiriadau gwerthfawr a pherthnasol iawn hefyd at ddramâu llwyfan megis *Anweledig* (Aled Jones Williams); *Dwyn i gof* (Llŷr Titus) a *Merched Caerdydd* (Catrin Dafydd) ynghyd â ffilm fer ddogfennol, *Dwy chwaer a brawd* (Meleri Morgan).

## Crynodeb o brif bwyntiau

- Synoptig. Mae'r ymdriniaeth o'r elfen synoptig yn gwahaniaethu'n sylweddol rhwng canolfannau. Mewn sawl canolfan, roedd yr elfen hon yn gryfder diamheuol. Ond roedd y cyfeiriadau synoptig yn brin a/neu'n ddisylwedd mewn nifer arwyddocaol o ganolfannau. **Lle nad yw'r ymgeiswyr wedi darllen fawr ddim yn annibynnol, mae'n effeithio'n arwyddocaol ar eu marc.** Rhaid bod yn onest hefyd ynghylch beth sydd wir wedi cael ei ddarllen. Mae'n gwbl amlwg i'r arholwr pan na fydd ymgeisydd wedi darllen llyfr neu stori a'i fod yn dibynnu ar nodiadau athro.

Da o beth fyddai hyfforddi'r ymgeiswyr i wneud cysylltiadau gyda gweithiau llenyddol eraill bob tro y byddan nhw'n trafod themâu. Bydd hyn yn sicrhau bod cyd-destun perthnasol a naturiol i'r elfen synoptig.

- Mae manylder mor bwysig wrth drafod. Roedd dealltwriaeth yr ymgeiswyr o'r testunau'n amlwg, hyd yn oed ar y bandiau marciau is, ond y prif beth a'u gwahaniaethai oedd y manylder. Roedd rhai'n dyfynnu'n gyson, eraill yn gyfyng eu dyfyniadau; rhai'n cyfeirio'n benodol at rannau o'r nofel, eraill yn cyffredinol heb fedru bod yn benodol. Dylid annog ymgeiswyr i gasglu'n annibynnol eu henghreffftiau a'u dyfyniadau personol eu hunain o'r testun gwreiddiol, yn ychwanegol at yr enghreffftiau a nodir yn nodiadau yr athrawon neu ar Hwb.
- Eleni eto, nid oedd yr ymdriniaeth o elfennau crefft ac arddull gystal â'r drafodaeth ar gymeriadau a themâu.
- Rhaid cadw'r cwestiwn mewn cof. Mae'n bwysig cyfyngu'r drafodaeth i'r hyn sy'n berthnasol i ofynion y cwestiwn hwnnw. Dylid cymhwyso gwybodaeth yn hytrach na thafllu nodiadau yn ôl.
- Mae ymarfer trafod y nofel am gyfnod estynedig, mewn amodau tebyg i'r arholiad, yn werthfawr iawn. Mae'n gyfle i ddatblygu'r grefft o wrando'n ofalus ar eraill ac i ymateb yn bwylllog mewn dyfnder, yn lle rhuthro ymlaen. Lle bo'r niferoedd yn caniatâu, mae'n arfer dda amrywio aelodau'r grwpiau er mwyn gallu ymateb i safbwyntiau gwahanol.



## CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 5

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2019

#### Uwch Gyfrannol/Uwch

#### Sylwadau cyffredinol

Mae gafael canolfannau ar yr hyn sy'n ddisgwyliedig wrth ateb Uned 5 wedi cryfhau eto eleni a'r negeseuon a ddaeth yn sgil hyfforddiant y ddwy flynedd ddiwethaf ynglŷn â'r gofynion yn cael eu trosglwyddo i'r ymgeiswyr. Mae'r goreuon yn llunio atebion llawn, manwl a threiddgar sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol. Un elfen sydd wedi gwreiddio'n ehangach eleni yw cyfeirio at sylwadau ysgolheigion, gyda rhai canolfannau'n amlwg yn hyfforddi ymgeiswyr i roi sylw i hyn wrth gynllunio'r traethawd, rhai'n agor a chloi eu hateb â dyfyniad perthnasol. Eto, rhaid nodi bod amheuan cryf ar adegau ynghylch dilysrwydd rhai o'r dyfyniadau a ddefnyddir.

Gwelwyd mynegiant clir gan y mwyafrif, er bod camddefnydd o ferfau amheronol yn eithaf cyffredin. Paragraffu oedd maen tramgwydd arall i amryw, gyda rhai o'r goreuon hyd yn oed yn gweld trefnu eu hatebion mewn paragraffau yn anodd.

Roedd bron pob ymgeisydd wedi mentro ateb y pedwar cwestiwn, ond mewn ambell ganolfan gwelwyd gwahaniaeth yn safon atebion y ddwy adran. Roedd mwy o ymgeiswyr wedi cymysgu trefn yr atebion eleni, a does dim o'i le ar hynny os ydy hyn yn galluogi iddyn nhw gynllunio'u hamser yn well.

Teimlem fod cryn waith wedi'i wneud ar y chwedl eleni a bod yr atebion hyn wedi datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n bosibl bod hynny ar draul yr amser a roed i'r hengerdd a'r cywyddau gan nad oedd yr un graen, yr un ddealltwriaeth a dyfnder i'r rhain yn gyffredinol.

#### Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

##### Cwestiwn 1 (a)

Roedd dealltwriaeth o ofynion y cwestiwn yn gadarnach eto eleni, er mai amrywiol oedd safon yr atebion. Roedd gwell dealltwriaeth o'r hyn y dylid ei wneud.

##### Cryfderau

- Roedd yr ymgeiswyr a gyrhaeddai'r band uchaf wedi llwyddo i roi sylw i dair elfen angenrheidiol y cwestiwn – crynhoi digwyddiadau'r dyfyniad, dewis rhyw 4 neu 5 o bwytiau arwyddocaol o'r dyfyniad a'u dadansoddi'n dreiddgar a manwl gan gysylltu ag enghreifftiau perthnasol o rannau eraill y chwedl. Cysylltai'r goreuon y tair elfen drwy eu hateb i gyd.
- Gwelwyd treiddgarwch yn yr atebion gorau.
- Roedd llwyddiant wrth ateb y cwestiwn hwn yn dibynnu i raddau helaeth ar y ganolfan. Roedd rhai canolfannau yn amlwg wedi deall y gofynion ac wedi paratoi'r ymgeiswyr yn effeithiol. O'r herwydd roedd yr holl ymgeiswyr yn cyflawni'r dasg yn llwyddiannus yn ôl eu gallu, ond roedd rhai canolfannau eraill nad oeddent wedi deall bwriad y dasg a phawb yn y ganolfan yn cael trafferth.

- Gwelwyd cyfeiriadau cyd-destunol yn arddangos trosolwg aeddfed ar y chwedl yn ei chyfanrwydd. Un enghraifft addas oedd cysylltu taith Bendigeidfran i achub ei chwaer â thaith heddychlon Matholwch ar gychwyn y chwedl i geisio Branwen yn wraig iddo. Ar y cychwyn roedd y ddau frenin yn cysylltu'r ddwy wlad mewn priodas wleidyddol ond yn y dyfyniad roedd Matholwch wedi dinistrio'r bwriadau da fel mae'n dinistrio'r bont yma.
- Roedd yr holl ymgeiswyr yn fwy hyderus i ddefnyddio barn ysgolheigion yn eu hatebion, boed yn ddyfyniad neu yn gyfeiriad anuniongyrchol. Gwelwyd amrywiaeth dda o gyfeiriadau perthnasol.
- Mae perygl ailadrodd gwybodaeth wrth ateb 1a ac 1b. Llwyddodd y goreuon i gael digon i'w drafod yn 1a heb ganolbwyntio'n ormodol ar gymeriadau Matholwch a Bendigeidfran. Nododd un ymgeisydd yn 1a y byddai'n trafod hudoliaeth Bendigeidfran yn fanwl yn y cwestiwn nesaf, ac mae hynny'n ffordd addas o nodi'r pwynt ond heb ddyblygu.
- Roedd ambell berl yn ymddangos o bryd i'w gilydd. Hoffais y disgrifiad o Branwen fel '*dim ond gwystl o fewn ei phriodas ei hun*'.

### Materion i'w hystyried

- Roedd rhai ymgeiswyr yn parhau i ateb drwy sôn am yr hyn sy'n digwydd cyn y dyfyniad ac ar ôl y dyfyniad, fel yr oedd y cwestiwn cyd-destun yn y gorffennol, er nad yw'r arfer mor gyffredin bellach. Cyd-destun y pwyntiau arwyddocaol y cyfeirir atynt sydd ei angen erbyn hyn. Mae eraill, (er mai prin ydynt), yn crynhoi holl ddigwyddiadau'r chwedl neu yn aralleirio'r darn.
- Gallai ateb amryw elwa o grynhoi mwy ar ddigwyddiadau'r dyfyniad a chanolbwyntio mwy ar y pwyntiau arwyddocaol.
- Roedd tuedd i ymgeiswyr canolig ailadrodd rhannau o'r chwedl sy'n gysylltiedig â'r dyfyniad ond heb ddangos treiddgarwch na gwir ddadansoddi arwyddocâd y digwyddiadau hynny.
- Manylu ar y pwyntiau sy'n sicrhau'r marciau gorau. Dydy nodi'r pwyntiau arwyddocaol fel y cyswllt teuluol, neu hudoliaeth ddim yn ddigon. Mae angen cig ar yr asgwrn, a 'datblygu ac ehangu' ar y pwyntiau hyn.
- Rhaid pwysleisio pwysigrwydd defnyddio'r amser yn ddoeth a chanolbwyntio ar y dyfyniad ei hun. Nid cyfle i nodi popeth mae'r ymgeiswyr yn ei wybod ydy hyn; rhaid dewis a dethol. Cafwyd ambell ateb oedd yn cynnwys tudalen neu ddwy o ragymadroddi.
- Roedd lle i ddatblygu ar yr elfen hudoliaeth a maint Bendigeidfran, ond roedd rhai hefyd yn nodi elfennau goruwchnaturiol Branwen. Teimlaf mai fel bod meidrol y caiff hi ei phortreadu.
- Er bod cael cyfeiriadau ysgolheigaidd amlach yn dderbyniol iawn, mae hynny wedi arwain at gam dadogi dyfyniadau ar yr ysgolhaig anghywir a hyd yn oed 'greu' rhai rwy'n amau!
- Mae defnyddio dyfyniadau o'r chwedl i'w gymeradwyo, ac mae llawer o'r ymgeiswyr yn llwyddo i wneud hynny'n effeithiol. Eto, rhaid pwysleisio bod angen i'r dyfyniad ategu pwynt neu enghreifftio er mwyn iddo fod yn ddilys. Dydy defnyddio dyfyniad ynddo'i hun, heb sicrhau perthnasedd, ddim yn hawlio marciau.
- Ychydig iawn o'r ymgeiswyr a wnaeth sylw am arwyddocâd y dull o gyfarch Branwen ac fel y byddai'r ffaith i'r negeswyr hepgor yr '*hepych guell*' a fyddai'n rhoi cyfle i Branwen nodi '*Duw a rodo da ywch*' yn dangos diffyg parch o'i gymharu â'u cyfarchiad i Matholwch cynt. O'r rhai a grybwyllodd hyn o gwbl roedd yn amlwg mai niwlog oedd eu dealltwriaeth ohono a doedd yr eglurhad ddim yn glir. Efallai fod angen ailedrych ar nodiadau Rhiannon Ifans yn '*Gwerthfawrogi'r Chwedlau*'.
- Gwelwyd rhai camagraffiadau cyffredin. Roedd nifer dda dan yr argraff mai pont rhwng Ynys y Cedyrn ac Iwerddon oedd y bont a dorrwyd. Cyfeiriai amryw at garchariad Branwen mewn '*tŵr*', rhai mewn '*cell*' ac eraill mewn '*seler*', a does dim

cyfeiriad at yr un o'r rhain! Roedd ambell un yn credu bod maint Bendigeidfran yn dibynnu ar ei hwyliau, ac i neges Branwen '*wylltio Bendigeidfran gymaint nes iddo droi'n gawr*'.

- Cyfeiriodd sawl un at y '*mein sugyn*' fel enghraifft o thema hudoliaeth. Er nad ydynt yn bethau cyffredin, gwrthrychau naturiol yw'r cerrig magnetig hyn mewn gwirionedd.

### Cwestiwn 1 (b)

Dyma'r tro cyntaf i'r cwestiwn ofyn am gymharu dau gymeriad, ond ni fu hynny'n dramgwydd o gwbl a nododd y mwyafrif llethol nodweddion perthnasol i ddisgrifio'r cymeriadau, a mwyafrif yr ymgeiswyr yn gallu sicrhau o leiaf rai enghreifftiau i brofi'r gosodiadau.

### Cryfderau

- Cynhaliodd mwyafrif yr ymgeiswyr y gymhariaeth drwy'r ateb, gyda'r goreuon wedi strwythuro eu hateb yn drefnus gan symud o un nodwedd i'r llall a chymharu'r ddau gymeriad e.e. eu dull o reoli, eu hymrwymiad i deulu, eu perthynas â'u gwŷr, galluoedd anghyffredin Bendigeidfran o'u cymharu â meidroldeb Matholwch. Roedd ambell un wedi trafod un cymeriad i ddechrau ac yna droi at yr ail gymeriad. Roedd y cyfleoedd i gymharu'n cynnig mwy o her, ond y ddau ddull yr un mor dderbyniol â'i gilydd.
- Roedd y mwyafrif llethol yn gallu cymharu gyda defnydd effeithiol o eirfa addas, gan adlewyrchu dylanwad ymarfer y sgil yn y cymhwyster TGAU Llenyddiaeth Gymraeg o bosibl.
- Roedd y goreuon wedi cynllunio eu hatebion yn gelfydd gan wneud cyfosodiadau bwriadus ac enghreifftio'n ofalus.
- Roedd nifer yn tynnu sylw at y tebygrwydd rhwng Bendigeidfran a Matholwch ar gychwyn y chwedl a'r bwriad da o sicrhau heddwch a chryfhau'r cysylltiadau rhwng y ddwy ynys drwy'r uniad gwleidyddol. Gwelodd nifer dda ragoriaethau Matholwch a gwendidau Bendigeidfran oedd yn sicrhau nad oedd yr atebion yn rhy ddu a gwyn.
- Cafwyd mwy o gyfeiriadau at y darn a ddyfynnwyd eleni, nifer dda at ddigwyddiadau a ddisgrifid ynddo a rhai'n dyfynnu ohono, er mai ychydig a gyfeiriai ato'n uniongyrchol. Yr argraff a roddwyd oedd mai damweiniol oedd llawer o'r cyfeiriadau yn hytrach na bod ymgeiswyr yn ei ddefnyddio fel '*sylfaen*' i'r ateb.
- Dibynnai'r cyfeiriadau ysgolheigaidd i raddau helaeth ar y ganolfan, gyda rhai canolfannau'n amlwg wedi gwneud mwy nag eraill i alluogi eu hymgeiswyr i'w defnyddio'n effeithiol.
- Mae ambell sylw'n taro tant weithiau, a hoffwn y disgrifiad o Matholwch fel '*cymeriad chwit-chwat sy'n troi â phob awel*'.

### Materion i'w hystyried

- Diffyg cynllunio oedd y prif wendid gyda thuedd i ailadrodd yr un pwyntiau a chylchdroi yn yr un man wrth drafod y ddau gymeriad.
- Roedd yr atebion lleiaf llwyddiannus yn tueddu i adael gosodiadau'n rhy benagored a heb eu henghreifftio'n ddigonol.
- Rhaid cadw mewn cof bod angen i'r dyfyniad fod yn '*sylfaen*' i'r ateb, ac felly byddai cyfeirio'n benodol at ddigwyddiad neu ddyfyniad perthnasol o'r darn yn cryfhau'r atebion. Roedd tuedd i fwrw ati'n syth i drafod yn gyffredinol.
- Cymharol ychydig o'r ymgeiswyr oedd yn tynnu sylw at nodwedd amlwg a wahaniaethau'r ddau frenin, sef bod nodweddion goruwchnaturiol i Bendigeidfran.
- Cyfeiriwyd at rai ysgolheigion digon amwys yma hefyd. Mae rhai cyfeiriadau anghyffredin digon dilys ond go brin bod Kathy Shimpock hefyd wedi galw Matholwch yn '*byped . . . yn nwylo ei bobl*'.
- Roedd rhai'n fwy dibynnol ar gyfeiriadau ysgolheigaidd na'r testun. Rhaid cofio bod angen dangos dealltwriaeth o'r testun hefyd.

- Wrth ddyfynnu rhaid sicrhau bod y dyfyniadau'n ennill eu lle, ac yn berthnasol i'r drafodaeth.
- Yma roedd y paragraffu blêr yn amlwg gydag ymgeiswyr yn cymharu dulliau rheoli'r ddau frenin, eu perthynas â'u gwŷr a'u perthynas â'u teuluoedd i gyd o fewn un paragraff.
- Roedd ambell ganolfan yn amlwg wedi paratoi ac ymarfer y math yna o gwestiwn, ac efallai nad ydy cael pawb yn agor ag amrywiadau ar yr un frawddeg yn arfer dda.
- Cafwyd peth camagraff yma eto, gyda Matholwch yn cael ei alw'n frenin yr Almaen. Roedd cred gyffredinol mai gwartheg a gafodd Matholwch fel iawndal yn hytrach na cheffylau.

## Cwestiwn 2 (a)

### Cryfderau

- Llwyddodd mwyafrif yr ymgeiswyr i nodi toreth o ffeithiau perthnasol am gefndir y bardd, gyda llawer yn amrywio'r math o wybodaeth, o'r cefndir daearyddol, amseryddol, cymdeithasol a manylion am y llawysgrif.
- Gwelai llawer berthnasedd y ddelfryd arwrol yn eu hatebion.
- Roedd yr ymgeiswyr wedi dod yn llawer mwy ymwybodol o'r angen i berthnasu'r gerdd a ddyfynnwyd i'r ateb, a gwnaent hynny i wahanol raddau a safon.
- Gallai'r goreuon gyfuno gwybodaeth gefndirol a'r testun yn ddeheuig. Roeddent wedi deall sut i ddefnyddio'r testun i enghreifftio eu gosodiadau.

### Materion i'w hystyried

- Yn anffodus, cymysgodd rhai gan feddwl mai Taliesin oedd y bardd yma.
- Roedd tuedd yn aml i lwytho'r holl wybodaeth blith draphlith heb syniad am gynllunio'r ateb.
- Dydy aralleirio'r gerdd na'i hegluro a dyfynnu ohoni ddim yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer y cwestiwn hwn. Rhaid wrth wybodaeth a chymhwyso'r wybodaeth i'r gerdd. Roedd rhai wedi ysgrifennu paragraff byr o gefndir cyn mynd ati i esbonio cynnwys y gerdd.
- Er bod dyfynnu o'r gerdd yn ganmoladwy, rhaid i'r dyfyniad fod yn berthnasol i enghreifftio pwynt. Roedd tuedd gan rai i ddyfynnu dim ond er mwyn gwneud hynny. Dydy dweud bod Aneirin yn moli *'arwr dwy ysgwydd a dan ei dalfrith'* o'r enw *'Buddfan fab Bleiddfan ddihafarch'* ddim yn enghreifftio na chymhwyso. Gwelwyd sawl enghraifft lle nad oedd cyswllt o gwbl rhwng y gosodiad a'r dyfyniad e.e. *'Roedd rhoi bywyd mewn brwydr yn rhywbeth oedd yn cael ei barchu'n sylweddol 'Ac ail tith orwyddan'*. Does dim cyswllt rhwng y ddau. *'Yn ôl rhai Aneirin oedd yr unig unigolyn i ddiac o'r frwydr, er hyn mae modd credu y gadawodd tri ynghyd â'r bardd, 'Arwr dwy ysgwydd a dan ei dalfrith'. 'Wedi i'r Gododdin a Rheged gael eu concro, dim ond Ystrad Clud oedd yn dal i fodoli. 'Ac o du gwasgar gwaneg tu bron', ac er fod yr iaith draddodiadol wedi hen ddiflannu, mae modd gweld y dylanwadau hyd heddiw wrth iddynt gyfri defaid mewn Cymbrieg'*. Nid cymhwyso gwybodaeth sydd yma.
- Gwelwyd diffyg gwybodaeth gan rai gan na soniwyd o gwbl am y paratodau yn Nin Eidyn, am y cyrch ar Gatraeth nac am y delfrydau arwol, gwybodaeth greiddiol i ateb y cwestiwn.
- Cyfeiriai sawl canolfan at hon fel *'cerdd ddyfalu'* gan fod y gynulleidfa yn dyfalu pwy oedd y milwr cyn datgelu ei enw ar y diwedd. Credaf fod sawl diffiniad y byddwn yn cytuno ag ef cyn *'cerdd ddyfalu'*. Trueni na fyddent wedi cadw'r *'dyfalu'* tan y cwestiwn nesaf.
- Er cystal dyfyniad yw *'Awdl fer, ond cerdd fawr'* gan Gwyn Thomas, nid am y gerdd hon yr oedd yn sôn! Roedd ei gynnwys yma yn gamsyniad cyffredin.
- Gwelwyd nifer o gamsyniadau eraill hefyd. Roedd nifer yn parhau i leoli llawysgrif Llyfr Aneirin yn Llyfrgell Rydd Caerdydd yn hytrach na'r Llyfrgell Genedlaethol yn

Aberystwyth. Roedd cryn dipyn hefyd dan yr argraff bod gwaith Aneirin yn Historia Brittonum gan Nennius. Ei enw'n unig a gofnodir yno.

- Mae un gair, neu fersiwn wahanol o'r un gair hyd yn oed, yn newid ystyr yn aml. Mae gwahaniaeth rhwng '*bardd teulu*' a '*bardd teuluol*' a rhwng '*llawysgrif*' a '*llawysgrifen*'. Arweiniodd hyn at rai'n awgrymu i Aneirin ysgrifennu yn yr un '*font*' drwyddo!
- Mae'r iaith lafar hefyd weithiau'n achosi camglywed, wrth drosglwyddo'r hengerdd ac i'r ymgeiswyr, wrth weld cyfeiriad at farn '*Ysgol Haigon*' am y gerdd. Tybed ydy'r ymgeiswyr yn cael digon o ymarfer ysgrifenedig wrth ateb y cwestiynau hyn?

## Cwestiwn 2 (b)

### Cryfderau

- Safon y dehongli sy'n didoli'r defaid a'r geifr yma i raddau helaeth. Roedd y goreuon yn gallu dehongli a dadansoddi nodweddion arddull yn fanwl, yn ddeallus ac yn dreiddgar gan ddangos gwybodaeth am gefndir y gerdd a phersonoliaeth y bardd wrth wneud hynny.
- Roedd rhagymadroddi amherthnasol am gefndir y gerdd yn llawer prinnach eleni ac roedd yn amlwg bod y neges a gafwyd yn yr hyfforddiant wedi cyrraedd ei nod i raddau helaeth.
- Roedd y mwyafrif wedi nodi bod 'Yr Wylan' yn gywydd llatai ac wedi llwyddo i egluro'r genre.
- Ystyriai'r ymgeiswyr cryfaf adeiladwaith y cywydd llatai wrth ddadansoddi priod waith y nodweddion arddull. Roeddent hefyd wedi ystyried personoliaeth y bardd a'i awydd i ddifyrru'i gynulleidfa.
- Yma eto roedd defnydd addas o ddyfyniadau a chyfeiriadau at farn ysgolheigion.

### Materion i'w hystyried

- Dyma'r ateb gwannaf yn gyffredinol eto eleni, sy'n syndod gan fod posibl cynllunio'r ateb ymlaen llaw i'r rhan fwyaf o'r cerddi, ac mae'r testun o'u blaenau yn yr arholiad.
- Ni atebwyd y cwestiwn hwn o gwbl gan rai ac roedd eraill yn fyr a brysiog, oedd yn awgrymu diffyg amser ar ddiwedd yr arholiad.
- Ychydig oedd yn dangos cynllun pendant, ond parhai'r duedd o symud fesul llinell nes ymddangos yn gatalogaidd braidd. Gan fod nodweddion tebyg yn agos at ei gilydd yn y gerdd e.e. y dyfalu'n y rhan gyntaf, teimlai'n llai o broblem eleni. Dylid rhoi mwy o sylw i beth sydd amlycaf neu bwysicaf a chychwyn yno. Go brin mai sangiadau oedd y peth hwnnw, a gwelwyd rhai yn agor yr ateb wrth geisio dadansoddi effeithiolrwydd y sangiadau yn y gerdd.
- Arwynebol oedd dadansoddi'r nodweddion yn aml, gyda rhai dehongliadau'n ymestyn y dychymyg i'r eithaf, fel '*Mae'r defnydd o odl 'dioer' a 'wenlloer' yn pwysleisio'r elfen o amour courtois, sef mynegiant o serch yn ei waith drwy greu sŵn a thempo a fyddai'n adlewyrchu natur swynol serch*'. Tybed? Enghraifft arall oedd bod cyfeiriadaeth lenyddol at '*Merddin*' a '*Thaliesin*' yn '*dangos pwysigrwydd y ferch i Dafydd*'. Mae angen ymhelaethu a dadansoddi sut a pham mae'n gwneud hynny.
- Roedd nifer nad oeddent yn cyfeirio at ddyfalu yma. Mae'n rhan mor greiddiol o'r gerdd fel bod trafod yr elfen hon yn hollbwysig.
- Mae angen nodi'r term cywir wrth drafod arddull. Dydy '*defnyddia'r disgrifiad . . .*', '*cyfeiria at . . .*', '*defnyddia'r bardd wrthrychau megis 'lili môr' a 'lleian'*' ddim yn ddigon da ar y lefel hon. Roedd hefyd yn syndod gweld cymaint yn camenwi'r nodweddion arddull.
- Nid oeddem yn derbyn '*cyflythreniad*' fel nodwedd mewn canu caeth. Disgwylid cyfeirio at sŵn cynghanedd arbennig a derbynnid y term os oedd yn cael ei ddefnyddio i egluro'r gynghanedd ymhellach. Syndod hefyd oedd sylwi mor aml y câi '*cynghannedd*' ei ddefnyddio.

- Dydy tynnu sylw at gynghanedd ynddi'i hun ddim yn ddigon chwaith. Wedi'r cyfan mae cynghanedd ym mhob llinell! Rhaid dadansoddi beth yw effaith y gynghanedd arbennig honno.
- Mae Dafydd ap Gwilym yn canmol y ferch yn anuniongyrchol drwy ganmol y llatai, ond roedd llawer o ansicrwydd beth oedd yn cyfeirio at yr aderyn a beth oedd yn disgrifio'r ferch.
- Yma eto gwelwyd cyfeiriadau a dyfyniadau digon amheus o enau ysgolheigion
- Roedd ambell beth yn peri syndod ambell waith, fel mai Myrddin ap Dafydd oedd y bardd (neu'r 'barddwr' gan un ymgeisydd).

### Defnyddio iaith Ysgrifenedig

- Y ddau bwynt bwled cyntaf o'r meini prawf oedd y prif feini tramgwydd. Yn aml iawn ni châi *'syniadau a dadleuon cymhleth'* eu cynnig, ac ni lwyddwyd i'w mynegi *'yn glir a chroyw'*. Mae saernïo'r gwaith yn effeithiol hefyd yn her i lawer. Felly, nid difyg adnoddau iaith da a diffyg cywirdeb gramadegol a chystrawennol oedd yn nacáu marciau uchel yma, ond strwythur yr ateb a diffyg cymhlethdod y syniadau.

Y teimlad yn gyffredinol eleni oedd bod ymgeiswyr yn dangos gwell ymwybyddiaeth o ofynion y papur. Roedd hi'n amlwg bod mwy o ganolfannau wedi gallu meithrin y sgiliau sy'n cael eu hybu yma. Amrywiol oedd safon yr ymgeiswyr fel erioed, ond teimlwn ein bod ar y trywydd cywir bellach. Diolch am eich gwaith caled wrth baratoi'r ymgeiswyr. Mae'r papur hwn yn gosod her i amryw ond mae'n amlwg bod athrawon ymroddgar yn llywio ein pobl ifanc i ddeall a gwerthfawrogi ein traddodiad.

### Crynodeb o brif bwyntiau

- Yr un sylw yn cael ei roi i'r ddwy adran – Adran A - Rhyddiaith yr Oesoedd Canol ac Adran B - Yr Hengerdd a'r Cywyddau wrth baratoi'r ymgeiswyr at yr arholiad yn yr uned hon.
- Dewis a dethol i ateb gofynion cwestiynau yn briodol yn hytrach na nodi popeth mae'r ymgeiswyr yn ei wybod
- Defnyddio dyfyniadau yn effeithiol fel eu bod yn berthnasol ac yn cefnogi sylwadau'r ymgeisydd wrth ateb
- Rhoi sylw i gynllunio atebion
- Ymarfer defnyddio berfau amhersonol yn gywir
- Rhoi sylw i baragraffu

## CYMRAEG IAITH GYNTAF UNED 6

### Tystysgrif Addysg Gyffredinol (Newydd)

Haf 2018

#### Uwch Gyfrannol/Uwch

#### Sylwadau cyffredinol

##### Adran A - Gwerthfawrogi Llenyddiaeth

Mae'n deg nodi bod mwyafrif yr ymgeiswyr yn ddigon cartrefol yn trafod y darn rhyddiaith allan o'r gyfrol *Abermandraw* gan Rhys Iorwerth. Roedd y darn wrth gwrs yn gyforiog o themâu posib i'w trafod, themâu eang eu hapêl a gynigiai gyfleoedd i drafod yn synoptaidd.

Dylid pwysleisio mai gwobrwyo dadansoddiad ystyrion a deallus a wneir a phleser oedd darllen dehongliadau rhai ymgeiswyr.

##### Sylwadau cyffredinol:

- Cyflwynodd nifer draethodau cytbwys yn trafod cynnwys, themâu, arddull a'r synoptig wrth fynd yn eu blaenau. Roedd y marciau uwch yn draethodau trefnus gydag agoriad yn crynhoi naill ai'r cynnwys neu'r themâu, a chlo perthnasol.
- Roedd y goreuon yn dangos dealltwriaeth dda o'r cynnwys ac o'r cymeriad, yn adnabod a thrafod themâu, yn dyfynnu, ac yn dehongli'n glir.

##### Adran B – Y Gymraeg mewn cyd-destun

Er yn ymddangosiadol hawdd mae hwn yn gwestiwn anodd yn ei hanfod sy'n gofyn am gynllunio a meddwl manwl cyn ysgrifennu. Mae'n bwysig fod yr ymgeiswyr yn caniatáu digon o amser i gwblhau'r cwestiwn er mwyn cynllunio a meddwl. Dylai'r ymgeiswyr hefyd gael digon o gyfleoedd i ymarfer ysgrifennu'r ffurfiau hyn er mwyn paratoi ar gyfer yr arholiad. Ymysg y goreuon cafwyd anerchiadau meistrolgar, dewis a dethol perthnasol, dehongli deallus, cyffyrddiadau gwreiddiol, cynllunio a saernïo aeddfed ac ysgrifennu hollol hyderus a chywir. Pleser pur oedd eu darllen.

##### Sylwadau cyffredinol:

- Roedd pwnc yr anerchiad sef adnodd band eang llydan wedi apelio. Felly llwyddodd pob ymgeisydd i gael mynediad i'r cwestiwn hwn ar lefelau gwahanol.
- Sylwyd bod canran uchel wedi penderfynu ateb ar yr anerchiad yn gyntaf ac wedyn y gwerthfawrogiad yn ail. O bosib fod hynny wedi arwain at ddiffyg amser gan rai i wneud cyfiawnder â'r detholiad. Roedd hyd atebion rhai yn yr anerchiad yn dipyn hirach na'r gwerthfawrogiad.
- Ar gyfartaledd roedd hyd atebion yr ymgeiswyr yn yr anerchiad yn 3 i 4 tudalen.

## Sylwadau ar gwestiynau/adrannau unigol

Isod ceir sylwadau cyffredinol ar wahanol agweddau o'r meini prawf asesu:

### Adran A

#### Cynnwys

#### Cryfderau

- Prin iawn oedd yr ymgeiswyr na lwyddodd i werthfawrogi'r darlun o Marsipan Morris gan gynnig sylwadau ar ei phryd a'i gwedd, nodweddion ei phersonoliaeth, ei hoffter o ysmegu, ei mwynhad o wyliau tramor, ei thaith bws a'i pharodrwydd i geisio sgwrs gyda'r diethryn.
- O ran dealltwriaeth llwyddodd ymgeiswyr yr haen ganol i sylwi ar y ddeuoliaeth sydd ymhlyg yn ei chymeriad, deuoliaeth a grynhoir gan y llinell grafog *'y teip y byddai rhywun yn ei thrystio hefo bywyd plentyn bach, ond byth rownd potel jin mewn cegin gefn.'* Ar y lefel hon deallwyd er ei bod yn ymddangosiadol hwyliog, poblogaidd a chymdeithasol, ei bod hefyd yn fenyw sâl sy'n dioddef o gysgod ar ei hysgyfaint a lwmp ar ei brest. Awgrymwyd bod y gwyliau yn cuddio ei hunigrwydd; bod trefnu'r bwyd ar gyfer yr angladd yn ddull o anghofio'i gofidiau a'r ysmegu diddiwedd yn ddull o ymdopi gyda'i nerfusrwydd a'i hofn.
- Y goreuon a lwyddodd i fynd o dan groen Marian ac a ddeallodd fod y darlun o'i thaith ar y bws yn feicrocosm o daith bywyd a bod y dirywiad cymdeithasol, y defnydd trosiadol o dywydd glawog, gaeafol a llwydaidd Caer-Coll o gymharu â'i hiraeth am wres a heulwen yr Ynysoedd Dedwydd, nid yn unig yn dwysáu ei hunigrwydd hi ond yn symboliadd o ddirywiad yr hen ffordd o fyw. Cymharodd ambell ymgeisydd y gwrthgyferbyniad rhwng hinsawdd glawog, llwydaidd, Abermandraw a haul braf Tenerife â chyflwr iechyd Marian – ei ddoe a'i heddiw. Nodwyd bod y Sais uniaith Saesneg hefyd yn tanlinellu'r dirywiad cymdeithasol hwn a'r bygythiad i'r iaith Gymraeg.
- Llwyddodd y goreuon i ddeall mai optimist yw Marian ac na fyddai'n ildio i'r pwl hwn o iselder ysbryd. Dydd Mawrth yw hi ac nid yw'n gweld yr arbenigwr tan ddydd Gwener – felly mae bywyd i'w fyw.
- Y mwyaf craff yn unig a ymgeisiodd i ddehongli'r frawddeg olaf gydag ambell un yn gweld taith yr afon Braw yn symbol o daith bywyd Marian a bod yr elfen *'Braw'* yn eironi proffwydol sy'n rhag-weld terfyn ei thaith hi gan mai marwolaeth yw diwedd y daith i bob un ohonom a bod y frawddeg fer, awgrymog, *'a hynny, o bosib, y tro ynys-ddedwyddaf, olaf un'* yn awgrym cynnil o'i thynged.

#### Gwendidau

- Gwelwyd diffyg sylw cytbwys a chyson i'r darn gan anwybyddu darnau arwyddocaol.
- Mae angen llawnach a dyfnach ymdriniaeth â chynnwys y darn. Er bod nifer yn cyfeirio at yr enw, golwg, y smocio a'r yfed, ei thaith ar y bws, pa siopau a welai, y dyn, ni ystyriwyd ofn a phryder Marian am y cansar, ei gwyliau, yr angladd, y tywydd, arwyddocâd y darlun o'r ardal.
- Roedd rhai heb ddangos eu bod yn deall bod Marsipan yn aros i weld arbenigwr ac y gallai gael newydd drwg, eraill heb ystyried y gwyliau.
- Tybiai rhai hefyd fod Marsipan yn wallgof am ei bod yn siarad â hi ei hun ac o'r herwydd yn cymharu â gwallgofrwydd y Fam yn *Un Nos Ola Leuad*. Tybiwyd bod Marsipan Morris yn mynd i'r angladd am y bwyd, neu fod ei gŵr ar y bws hefo hi ond ei bod yn eistedd wrth ochr y dyn.
- Roedd sawl un wedi cymryd mai teithio i'w hangladd ei hun oedd Marian.



- Gwelwyd anghofio neu ddiffyg dyfynnu o'r detholiad fel tystiolaeth – aralleirio arwynebol.
- Cysylltwyd y darn yn ormodol â salwch meddwl.
- Cafwyd tuedd i ailadrodd y cynnwys ar draul dehongli.
- Mae angen mwy o ddehongli'r clo gan y mwyafrif.

## Arddull

### Cryfderau

- Roedd arddull yn cael sylw da gan y mwyafrif ac yn plethu'n naturiol i'r drafodaeth/dehongliad. Prin oedd y traethodau nad oedd wedi rhoi sylw i arddull eleni.
- Roedd sylwadau ar effeithiolrwydd nodwedd arddull yn ychwanegu at y dehongli gan lawer. Llwyddai'r goreuon i drafod arddull yn feistrolgar.
- Y duedd ar y bandiau isaf oedd canolbwyntio ar ambell dechneg arddull amlwg e.e. y cyffelybiaethau, y rhestru, y dafodiaith a'r Cymreigio geiriau Saesneg.
- Roedd nifer o'r ymgeiswyr canolig yn cydio yn y defnydd o'r camsyniad teimladol o ddefnyddio'r tywydd i adlewyrchu sefyllfa Marian; defnydd o ferfenwau i awgrymu cydymdeimlad y dieithryn â hi er na allai gyfathrebu yn y Gymraeg; arwyddocâd yr ansoddair *'llwyd'* a phersonoli'r glaw yn *'ffustio'r to'* ac yn *'ddagrau ar y ffenest'*. Roedd mwy o ddadansoddi ar y lefel hon.
- Llwyddai'r goreuon i drafod arddull yn feistrolgar. Tynnwyd sylw at y dychan, yr hiwmor tywyll a'r eironi sy'n frith drwy'r darn a hefyd y frawddeg hir amlgymalog lle ildia Marian i'w hunigrwydd a sylwi fel yr hen wraig, ei bod hi hefyd *'ar drugaredd y gwynt'* a'i bywyd yn *'dor-calonnus a di-ddallt o drist'*.
- Llond dwrn oedd wedi gweld y cyffyrddiad athronyddol pan ddisgrifia'r awdur *'Daeth Marsipan Morris i'r casgliad bod.'*
- Roedd termau arddull yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus gan lawer iawn o'r ymgeiswyr.

### Gwendidau

- Roedd angen mwy o ddyfnder a mwy o ddehongli gan rai yn eu sylwadau ar yr arddull. Byr iawn oedd sylw effeithiolrwydd rhai, heb fawr o ddyfnder nac yn cyfrannu llawer at y dehongli.
- Aeth llawer i gors wrth drafod tafodiaith a Chymreigio geiriau Saesneg heb wir ddeall yr effaith.
- Gwelwyd ansicrwydd termau arddull gan nifer fechan.

## Themâu

### Cryfderau

- Roedd themâu fel unigrwydd a Chymreictod yn cael sylw gan fwyaf yr ymgeiswyr.
- Ar lefel elfennol iawn cydiwyd mewn themâu megis alcoholiaeth, ysmegu, byd y ferch.
- Roedd y goreuon yn dehongli dirywiad unigolyn, dirywiad cymdeithas, brwydr, marwolaeth, amser, dihangfa, ffawd, taith bywyd, diffyg cyfathrebu, gormes amser, colled, tristwch, byrhoedledd dyn a hirhoedledd byd natur, marwolaeth, ofn ac arswyd.

### Gwendidau

- Roedd themâu yn cael eu hadnabod a'u hamlygu gan sawl un, ond roedd y manylu ar y cynnwys er mwyn esbonio, trafod a darlunio'r thema yn brin.

- Un gwendid eto eleni, yn arbennig pan oedd y themâu yn rhoi strwythur i'r traethawd, oedd cynnwys trafodaethau athronyddol am y themâu. Y gamp yw trafod y themâu yng nghyd-destun y darn gan ddefnyddio dyfyniadau a thechnegau arddull wrth ddadansoddi.
- Roedd thema plentyndod yn cael ei thrafod gan rai ymgeiswyr am fod yr awdur yn defnyddio cysyllteiriau; credai eraill fod y cyfeiriad at y botel Jin yn arwydd bod Marian yn alcoholig yn hytrach nag yn arwydd o hwyl a direidi ei chymeriad.
- Trafodai nifer fawr ddibyniaeth ar sigarêts gan ffocysu gymaint arno nes colli golwg ar unrhyw thema arall; rhai themâu annisgwyl fel diffyg hylendid y cymeriad/ei hagwedd haerllug, fusneslyd/ffug barchusrwydd.

## Synoptig

### Cryfderau

- Prin iawn oedd yr ymgeiswyr na lwyddodd i gyfeirio'n synoptaidd, sy'n galonogol iawn, a'r duedd oedd croesgyfeirio at gerddi a nofelau gosod y fanyleb sef *Un Nos Ola Leuad, Dan Gadarn, Martha, Jac a Sianco, Blasu*. O ran cerddi'r fanyleb y cyfeiriwyd atynt cafwyd – *DIY, Y Genhedlaeth Goll, Y Meirwon*.
- Mentrodd rhai tu hwnt i'r fanyleb a chysylltiadau synoptig perthnasol oedd e.e. *Llyfr Glas Nebo, Kate Roberts a'r Ystlum, Y Bwthyn, Cysgod y Cryman, Edau Brau, y Ferch ar y Ffordd, Traed Mewn Cyffion, Te yn y Grug, O Ran, Y Graig, Bitsh, Fel aderyn, Cestyll yn y Cymylau, Ymbelydredd, Hogyn Syrcas, Wele'n Gwawrio, Ffawd Celwydd a Chelwyddau*, gwaith Heiddwen Tomos, straeon Lleucu Roberts, '*Nadolig yn Nulyn*', *Ychydig Is na'r Angylion, Gwe o Gelwyddau, Wrth Fy Nagrau, Pluen, Naw Mis, Rhannu Ymbarél, Si Hei Lwli, Dramâu - Y Tad, Anweledig*.
- Gallai'r goreuon gynnig ffresni a dealltwriaeth aeddfed wrth gymharu gan ddefnyddio eu cyfeiriadau synoptig i atgyfnerthu'r tebygrwydd rhwng y detholiad â'u llyfryddiaeth amgenach.

### Gwendidau

- Gwelwyd cyfeirio at y synoptig yn rhy sydyn neu mewn mwy o fanylder na'r darn ei hun - cafwyd enghreifftiau lawer lle'r oedd y cyfeiriadau synoptig yn hirach na'r sylwadau ar y darn.
- Roedd rhai cyfeiriadau synoptig llac iawn eu perthnasedd i'r darn; rhai yn cyfeirio yn sydyn ar y diwedd fel rhyw atodiad ond heb unrhyw berthnasedd.
- Enwyd awduron/beirdd anghywir i'r testun synoptig.
- Gwelwyd gorddibyniaeth ar destunau'r fanyleb a TGAU wrth drafod y synoptig gan nifer uwch na'r arfer eleni. Wrth gwrs roedd modd cyfeirio'n briodol at sawl nofel ond tenau eu cyswllt a chyffredin iawn oedd y cyswllt ag ambell destun megis *Siwan, Yma mae fy lle a Preseli*.

## Saernïo

### Cryfderau

- Gwelwyd traethodau cytbwys yn trafod cynnwys, themâu, arddull a'r synoptig wrth fynd yn eu blaenau.
- Symudwyd yn drefnus o baragraff i baragraff a chafwyd dilyniant o fewn paragraff a chlo ystyrllon, ar ei orau yn cyfleu hanfod y darn.
- Gwelwyd paragraffau agoriadol addas yn crynhoi'r cynnwys a rhestru'r themâu gan lawer.

## laith a mynegiant

### Cryfderau

- Rhaid canmol cywirdeb, amrywiaeth brawddegol a geirfa.
- Gwelwyd cynllunio gofalus a lluniwyd traethodau darllenadwy iawn.
- Rhoddwyd sylw boddhaol i gywair ac iaith gwerthfarwogi llenyddol.
- Roedd y goreuon yn ysgrifennu'n goeth a meistrolgar gan arddangos aeddfedrwydd a chyfoeth iaith.

### Gwendiadau

- Iaith – gwelwyd mynegiant gwallus, aneglurdeb yn effeithio ar y dehongli, dewis o air yn cymylu'r ystyr, gwallau treiglo.
- Mae angen mwy o sylw ar wallau berfol: *dywedir y darn, adroddir yr awdur, sonnir yr awdur* a hefyd ambell gystrawen '*fod mae*', '*sydd ddim*'.
- Ni sicrhawyd paragraff clo i'r traethawd gan nifer.

## Adran B: Y Gymraeg mewn Cyd-destun

### Ffurf a chywair

#### Cryfderau

- Roedd yr anerchiadau llwyddiannus yn arddangos sicrwydd o ran ffurf, rhethreg a chywair.
- Roedd y goreuon yn llwyddo i gynnal a chadw rhethreg anerchiad, cynnal y cyd-destun trwy'r dasg sef anerchiad gerbron Aelodau'r Cynulliad ac felly cyfarch a herio'r aelodau yn gyson gyda grym eu dylanwad yn eu swyddi cyhoeddus, ailadrodd a gofyn cwestiynau rhethregol.

#### Gwendidau

- Nid oedd nifer yn gallu cynnal y cywair a'r rhethreg drwy'r anerchiad.
- Gwelwyd lleiafrif yn ysgrifennu erthygl, sgwrs ac eraill yn defnyddio pwyntiau bwled yn yr anerchiad.

### Dewis a dethol

#### Cryfderau

- Roedd y bandiau marciau uwch yn llwyddo'n dda iawn i ddewis a dethol gwybodaeth berthnasol felly cafwyd anerchiadau cytbwys a oedd yn rhoi sylw i fanteision, ystadegau, anawsterau, y grant.
- Dyfynnwyd mewn cyd-destun yn llwyddiannus gan nifer. Llwyddai'r goreuon i roi'r dyfyniadau mewn cyd-destun a'u dehongli.
- Gwelwyd tystiolaeth bod rhai ymgeiswyr wedi bras gynllunio cyn ysgrifennu ac roedd hyn wedi talu ar ei ganfed.
- Llwyddai'r bandiau maciau uchaf i gymhwyso gwybodaeth yn ddeallus a'i defnyddio yn hytrach na rhestru pwyntiau gwybodaeth – yn enwedig yr anawsterau. Y blwch anawsterau oedd yn aml yn amlygu'r gwahaniaeth yng ngallu'r ymgeiswyr wrth iddynt lwyddo neu beidio i droi'r ffeithiau i fod yn her i'r aelodau.

#### Gwendidau

- Nid oedd nifer wedi rhoi sylw i'r anawsterau a'r grant.
- Roedd rhai yn brin eu gwybodaeth o'r darllen ar y papur arholiad – mwy o wreiddioldeb na gwybodaeth o'r papur arholiad felly angen mwy o ddewis a dethol gwybodaeth gan rai.
- Gwelwyd eraill yn cadw'n rhy agos at eiriad yr wybodaeth ar y papur arholiad.

- Roedd rhai'n copïo geiriad gwybodaeth o'r papur arholiad, e.e. brawddegau bocs *Pam dewis...*, a bocs *y grant*.
- Câi nifer anhawster i gymhwyso'r wybodaeth.

## Saernïo

### Cryfderau

- Cadwyd golwg ar y testun/cwestiwn a chofio mai Aelodau'r Cynulliad oedd y gynulleidfa, gan ddatblygu'r anerchiad i roi sylw i ba mor allweddol yw'r band eang cyflym i **ffyniant economaidd, bywyd cymdeithasol a dyfodol Cymru**.
- Gwelwyd dilyniant ystyrion ac adeiladol o baragraff i baragraff, o frawddeg i frawddeg. Roedd yr anerchiadau llwyddiannus yn llifo'n rhwydd ac ystyrion, ac yn ehangu'n ddeallus ar bwyntiau'r papur arholiad.
- Cafwyd anerchiadau a oedd wedi eu hanelu'n benodol at Aelodau'r Cynulliad, ac a oedd yn ymwybodol o waith a rôl Aelodau'r Cynulliad, ac yn cyfarch yr ACau yn gyson.
- Gwelwyd yr elfen o berswâd ac argyhoeddi.
- Agorwyd a chlowyd y gwaith yn addas gan lawer.

### Gwendiadau

- Gwelwyd diffyg cynllunio ac roedd y cynnwys o fewn paragraffau yn gymysglyd/heb fod yn gydllynus.
- Roedd nifer yn colli'r dilyniant ystyrion ac yn dueddol o neidio o un pwynt gwybodaeth i'r llall heb sicrhau cyswllt rhwng y paragraffau.
- Nid oedd rhai yn cynnig agoriad, rhai heb gynnig clo teilwng ac eraill heb ddychwelyd at y cwestiwn yn eu paragraff clo.
- Roedd nifer yn colli golwg ar y gynulleidfa gan ddiolch i Aelodau'r Cynulliad am y gwahoddiad i'w hannerch.
- Roedd nifer hefyd yn colli golwg ar y cwestiwn ac yn trafod band eang cyflym yn ein cartrefi gan anghofio Cymru.

## Gwreiddioldeb

### Cryfderau

- Gwelwyd ychwanegiad synhwyrol, perthnasol gan sawl ymgeisydd a oedd yn ymestyn pwynt o'r daflen arholiad ac yn gwneud yr anerchiad yn llawer mwy diddorol
- Datblygwyd pwyntiau drwy'r gwreiddioldeb a sicrhawyd dilyniant drwy'r ychwanegiadau gwreiddiol e.e. gwybodaeth bersonol o sefyllfa cyswllt â'r we yng nghefn gwlad ac mewn ysgol a thrwy hynny anadlwyd ychydig o wreiddioldeb i'r anerchiad. Roedd hyn yn nodwedd wych ymhlith y goreuon. Amryw o gyfeiriadau gwreiddiol – sôn am sefyllfa wleidyddol gyfoes – Brexit/sefyllfa Cymru o fewn Ewrop/ globaleiddio/rôl ffermwyr Cymru yn ffyniant economi'r wlad.

### Gwendidau

- Roedd gwreiddioldeb perthnasol yn brin gan rai ymgeiswyr. Collwyd cyfleoedd gan nifer i dynnu ar eu profiad/gwybodaeth bersonol.

## Iaith a mynegiant

### Cryfderau

- Roedd iaith bandiau marciau 1 a 2 yn gywir, yn ddigon graenus, yn gwneud defnydd o ferfau cryno ac yn amrywio cystrawen.

### **Gwendidau**

- gwallau treiglo niferus
- camsillafu yn wallus o'r wybodaeth a geir ar y papur arholiad
- defnyddio'r ferf amheronol yn hytrach na'r ferf bersonol
- cymysgu berfau presennol ac amherffaith yn gyffredin iawn
- terfyniadau berfol anghywir a chystrawennau gwallus, yn aml roedd y cynnwys yn well na'r mynegiant a'r iaith
- roedd mynegiant ambell ymgeisydd yn hynod wallus

Hoffwn ddiolch i'r arholwyr i gyd am eu gwaith manwl ac i chwithau fel athrawon am ysbrydoli'r ymgeiswyr i fwynhau llenyddiaeth a'u paratoi gystal ar gyfer yr arholiad.

### **Crynodeb o brif bwyntiau**

- Parhau i ymarfer llunio dadansoddiadau cytbwys wrth werthfawrogi llenyddiaeth yn trafod cynnwys, themâu, arddull a'r synoptig wrth fynd yn eu blaenau
- Sicrhau bod y cysylltiadau synoptig yn berthnasol
- Darllen gofynion cwestiwn Adran B yn hynod ofalus er mwyn arddangos sicrwydd o'r ffurf a'r cywair
- Caniatáu digon o amser i ddarllen y sbardun, cynllunio a meddwl cyn ateb y cwestiwn



CBAC  
245 Rhodfa'r Gorllewin  
Caerdydd CF5 2YX  
Ffôn: 029 2026 5000  
Ffacs: 029 2057 5994  
E-bost: [arholiadau@cbac.co.uk](mailto:arholiadau@cbac.co.uk)  
gwefan: [www.cbac.co.uk](http://www.cbac.co.uk)